# Dathlu Priodas: Cyfraith Priodasau Newydd

## Crynodeb o'r Adroddiad



Law Commission
Reforming the law

# Cyflwyniad

Mae priodasau'n bwysig i bobl. Maent yn bwysig i'r cyplau sy'n priodi, ac i'w teuluoedd, ffrindiau a chymunedau. Gwelir y pwysigrwydd hwn yn y ffordd y mae cyplau'n dathlu eu priodasau: â defodau neu seremonïau sy'n cydnabod traddodiadau neu gredoau, ac mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u perthynas â'i gilydd.

Mae priodasau hefyd yn bwysig o safbwynt cyfreithiol. Mae priodas yn creu perthynas gyfreithiol newydd rhwng y cwpl, perthynas â dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol arwyddocaol. Mae'n bwysig felly bod gan y cwpl sicrwydd eu bod yn briod yng ngolwg y gyfraith.

A chan fod priodi'n creu perthynas gyfreithiol newydd, mae priodasau'n bwysig i'r wladwriaeth. Mae angen i'r wladwriaeth wybod a yw cwpl yn gymwys i briodi (hynny yw, a oes unrhyw rwystrau i'r briodas) ac a yw cwpl mewn gwirionedd yn briod. Mae angen i'r wladwriaeth hefyd amddiffyn rhag y risg o briodasau dan orfod, priodasau ymelwol, a phriodasau ffug.

Gwelsom nad yw cyfraith priodasau yn gweithio i lawer o gyplau. Yn hytrach na hwyluso priodasau, mae'n gosod cyfyngiadau diangen. Mae'r cyfyngiadau hyn yn atal cyplau rhag priodi mewn ffordd sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw. Mae llawer o bobl yn priodi'n hapus yn unol â'u dymuniadau, ond mae eraill yn methu. Bob blwyddyn, oherwydd rheoliadau diangen, mae miloedd o gyplau yn methu â chael priodas sy'n cael ei chydnabod gan y gyfraith mewn lleoliad sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw. Mae eraill yn methu â chael seremoni sy'n cynnwys yr addunedau, defodau a cherddoriaeth sy'n adlewyrchu orau eu credoau a'u dewisiadau.

O ganlyniad, nid yw cyfraith priodasau yn cefnogi priodas. Y canlyniad yw bod llawer o gyplau yn dewis dathlu mewn ffordd nad yw'r gyfraith yn ei chydnabod. Bydd rhai o'r cyplau hyn yn cael dwy seremoni – ac yn talu am y ddwy: un sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, ac un sy'n adlewyrchu eu credoau neu werthoedd. Bydd rhai'n teithio i wlad arall sy'n caniatáu ystod ehangach o briodasau. Ond bydd eraill yn cael dim ond un seremoni nad yw'n cael ei chydnabod gan y gyfraith, efallai heb sylweddoli nad yw'r seremoni'n eu rhwymo'n gyfreithiol, neu gan aberthu amddiffyniadau priodas gyfreithlon yn fwriadol. Gall hynny adael pobl yn agored i niwed ar ddiwedd y berthynas, boed ar ôl gwahanu neu ar ôl i'w cymar farw. Y rhai mwyaf agored i niwed yw menywod ac unrhyw blant o'r berthynas.

Gall hyd yn oed y rhai y mae'r gyfraith bresennol yn cefnogi eu cynlluniau priodas wynebu oedi a chostau diangen. Mae cyfyngiadau yn cyfyngu ar ddewis cyplau o leoliadau, ac i'r rhan fwyaf, sy'n cael priodas sifil ar hyn o bryd, gall rhai lleoliadau trwyddedig fod yn gostus iawn ac wedi'u harchebu flynyddoedd ymlaen llaw. Mae opsiynau rhatach "di-lol" ar gael yn ddamcaniaethol mewn swyddfeydd cofrestru, ond mae'r slotiau'n brin a gall cyfyngiadau (er enghraifft, dim ond y cwpl a'u tystion i fod yn bresennol) droi rhai ymaith a gwneud i briodasau symlach deimlo'n eilradd. Ar ben hyn, mae aneffeithlonrwydd yn y gyfraith yn cyfyngu ar ei heffeithiolrwydd ac yn ychwanegu at y gost. Mae rheoleiddio a biwrocratiaeth ddiangen yn golygu bod rhai cyplau'n gorfod gwario mwy na'i gilydd ar agweddau cyfreithiol eu priodas. Mae cymhlethdod ac anghysondeb yn golygu bod gwahanol reolau'n berthnasol i wahanol gyplau, ac yn arwain at ddryswch a theimladau o annhegwch.

Mae rhai cyplau, wrth wynebu'r anawsterau hyn a gweld eu bod yn methu â chael y briodas y mae arnynt ei heisiau, neu y gallant ei fforddio, naill ai'n oedi cyn priodi neu'n penderfynu peidio â thrafferthu.

## Cyfraith priodasau gymhleth, sydd wedi dyddio

Gellir priodoli llawer o broblemau'r gyfraith priodasau bresennol i'r ffaith ei bod yn hen ac yn gymhleth. Mae'r gyfraith bresennol wedi'i chynnwys yn Neddf Priodasau 1949, ond mae ei strwythur sylfaenol yn dyddio'n ôl i'r 18fed a'r 19eg ganrif, pan oedd pawb bron iawn yn byw, priodi a marw mewn un gymuned, a'r rhan fwyaf o bobl yn rhannu'r un traddodiadau a chredoau. Cafodd llawer o'r rheolau presennol eu dyfeisio i adlewyrchu ffordd o fyw a oedd yn wahanol iawn i'r oes hon. Mae'r gyfraith yn cyfyngu ar y ffordd y caiff cyplau ddathlu eu priodasau oherwydd rhesymau hanesyddol, yn hytrach na rhesymau polisi cyfredol. Mae'r gyfundrefn wedi dyddio. Nid yw'n diwallu anghenion y gymdeithas amrywiol sydd yng Nghymru a Lloegr heddiw.

O dan y gyfraith bresennol, mae gwahanol reolau'n gymwys i wahanol grwpiau. Rhaid i gyplau ddewis rhwng priodas sifil a phriodas grefyddol. Mae'r gyfraith hefyd yn rhannu priodasau crefyddol yn wahanol fathau: Anglicanaidd (sef Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru), Iddewig, Crynwyr, ac unrhyw grŵp crefyddol arall. Mae rheolau gwahanol ar gyfer pob un o'r categorïau hyn. Datblygwyd y gyfraith yn raddol dros y blynyddoedd, fel tŷ sydd wedi cael mwy nag un estyniad, i ddarparu ar gyfer priodasau gan wahanol grwpiau ac mewn gwahanol leoliadau. Y canlyniad yw cyfraith sy'n anghyson ac yn gymhleth, yn aneffeithlon, yn annheg, ac yn cyfyngu heb fod angen.



## Cynllun newydd

Rydym yn argymell diwygiad cynhwysfawr o'r sylfeini i fyny: cynllun newydd sbon i lywodraethu cyfraith priodasau. Mae ein hargymhellion yn sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, bod yr un rheolau cyfreithiol yn gymwys i bob priodas, p'un a yw'r briodas yn cynnwys seremoni sifil, seremoni grefyddol neu (os yw'r Llywodraeth yn caniatáu) seremoni cred anghrefyddol, er enghraifft, seremoni Ddyneiddiol.

Mae ein hargymhellion yn trawsnewid y gyfraith o system sy'n seiliedig ar reoleiddio'r adeilad lle cynhelir y seremoni, i un sy'n seiliedig ar reoleiddio'r gweinydd sy'n gyfrifol am y seremoni. Ym mhob priodas bydd gweinydd, a fydd â dyletswyddau cyfreithiol penodol sy'n gysylltiedig â'r briodas. Mewn llawer o achosion, bydd y gweinydd yn berson sydd eisoes â rôl gyfreithiol mewn cysylltiad â'r briodas; er enghraifft, swyddog cofrestru, aelod o'r offeiriadaeth Anglicanaidd neu "berson awdurdodedig" mewn man addoli. Bydd y newid sylfaenol hwn, a'r diwygiadau ategol eraill a argymhellir gennym, yn rhoi mwy o ryddid i gyplau ddathlu eu priodas yn unol â'u credoau eu hunain, tra'n cynnal elfennau amddiffynnol pwysig y gyfraith.

## Dwy nodwedd allweddol

**Rheoleiddio'r gweinydd, nid y lleoliad**

Mae seilio'r rheoliadau ar y gweinydd yn newid arwyddocaol o ran pwyslais, o gymharu â'r gyfraith bresennol lle mae'r rheoliadau at ei gilydd yn seiliedig ar yr adeilad lle gellir cynnal y briodas. Byddai'r newid yn dileu llawer o gyfyngiadau diangen y gyfraith bresennol, ac yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw annhegwch o ran y ffordd y caiff gwahanol grwpiau eu trin.

**Rheolau cyffredinol i bob priodas**

Gydag ychydig iawn o eithriadau, byddai'r un rheolau'n gymwys i bob priodas yn ein cynllun. Unwaith eto, mae hyn yn wahanol i'r gyfraith bresennol, lle mae gwahanol reolau'n aml iawn yn gymwys i briodasau Anglicanaidd, priodasau Iddewig, priodasau'r Crynwyr, priodasau crefyddol eraill a phriodasau sifil.



## Prif fanteision

O dan ein hargymhellion, bydd pob cwpl, yn ogystal â grwpiau crefyddol ac (os yw'r Llywodraeth wedi'u galluogi i gynnal priodasau) grwpiau credoau anghrefyddol, yn cael rhyddid i benderfynu ble a sut y cynhelir eu priodasau.

### Prif fanteision ein hargymhellion

**Hwylustod**

- Bydd cyplau'n gallu rhoi rhybudd o'u bwriad i briodi ar-lein, a dewis yr ardal gofrestru lle byddant yn cael eu cyfweld yn ddiweddarach gan swyddog cofrestru.

**Cyhoeddusrwydd**

- Cyhoeddir rhybudd o briodasau sydd i ddod ar-lein fel bod yr wybodaeth yn hygyrch i'r gymuned ehangach.

**Parchu credoau**

- Bydd cyplau yn gallu cael seremoni briodas sy'n adlewyrchu eu gwerthoedd a'u credoau, drwy:
  - gael seremoni grefyddol mewn lleoliad ar wahân i fan addoli a heb orfod cynnwys geiriau wedi'u rhagnodi yn y seremoni;
  - cael seremoni grefyddol yn cael ei harwain gan weinidog rhyng-ffydd, sy'n cynnwys agweddau ar gredoau'r ddau berson;
  - cael rhai elfennau crefyddol, megis emynau a gweddïau, wedi'u hymgorffori yn eu seremoni sifil, cyn belled bod y seremoni'n dal i gael ei gweld fel un sifil.
- Os yw'r Llywodraeth yn caniatáu iddynt gynnal priodasau, byddai sefydliadau credoau anghrefyddol (megis Dyneiddwyr) yn gallu gwneud hynny ar yr un sail â sefydliadau crefyddol.

**Dewis**

- Bydd cyplau yn gallu priodi mewn lleoliadau llawer mwy amrywiol, gan gynnwys:
  - y tu allan, mewn man nad yw'n gysylltiedig ag adeilad, er enghraifft mewn coedwig, ar draeth neu mewn parc lleol;
  - mewn mannau lleol fforddiadwy, megis canolfannau cymunedol a neuaddau pentref, yn ogystal â'u cartrefi eu hunain;
  - mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau pleser sydd wedi'u cofrestru yn y DU.

**Opsiynau newydd**

- Os yw'r Llywodraeth yn caniatáu iddynt gynnal priodasau, bydd gweinyddion annibynnol (hynny yw, gweinyddion nad ydynt yn swyddogion cofrestru, ac nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliad crefyddol neu sefydliad cred anghrefyddol) yn gallu cynnal priodasau sifil.

**Sicrwydd**

- Bydd llawer mwy o sicrwydd ynglŷn â beth fydd yn digwydd pan nad yw cwpl wedi cydymffurfio â'r ffurfioldebau gofynnol, a bydd llai o briodasau sydd wedi'u cynnal yn unol â defodau crefyddol yn briodasau nad ydynt yn cael eu cydnabod o gwbl gan y gyfraith.

Yn ogystal â rhoi rhyddid i gyplau benderfynu ble a sut i gynnal eu priodasau, mae ein hargymhellion yn sicrhau bod buddiannau cyfreithlon y wladwriaeth mewn priodasau yn cael eu gwarchod. Yn fwyaf arbennig, mae'r broses ragarweiniadau drylwyr a argymhellir gennym yn cryfhau amddiffyniad rhag priodasau dan orfod a phriodasau ymelwol ac yn cynnal yr amddiffyniadau presennol rhag priodasau ffug.

Ein hargymhellion fydd y newid mwyaf cynhwysfawr i gyfraith priodasau ers y 19eg ganrif o leiaf. Ond nid ydynt yn radical na heb eu profi. Maent yn adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd yn barod gan nifer o wledydd eraill, gan gynnwys y rhai agos atom – yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon, Jersey a Guernsey. Yn ddealladwy, oherwydd arwyddocâd y newidiadau, mynegodd rhai a ymatebodd i'n Papur Ymgynghori nifer o bryderon ynglŷn â chanlyniadau posibl ein cynllun. Wrth roi sylw i'r pryderon hyn, rydym wedi gallu edrych ar brofiad yn y gwledydd eraill hyn. Mae'r profiad hwn wedi'n galluogi i fod yn ffyddiog y bydd yr argymhellion rydym yn eu gwneud yn cyflawni dibenion ein diwygiadau, heb achosi canlyniadau anfwriadol.

Er y bydd ein diwygiadau'n rhoi llawer mwy o ddewis i gyplau ynglŷn â ble y gallant gynnal eu priodasau, a ffurf a chynnwys eu seremonïau, nid yw'r dewis hwnnw'n un penrhydd. Ar gyfer pob priodas, mae ein hargymhellion yn sicrhau bod urddas a diogelwch y seremoni yn cael ei warchod. Yn ogystal, bydd sefydliadau crefyddol ac (os yw'r Llywodraeth yn eu galluogi i gynnal priodasau) sefydliadau cred anghrefyddol yn gallu pennu eu gofynion eu hunain ynglŷn â ble y gellir cynnal priodasau sy'n cael eu goruchwylio gan eu gweinyddion, ynghyd â ffurf a chynnwys eu seremonïau. Bydd y darpariaethau arbennig sy'n gymwys i sefydliadau a swyddogion crefyddol yn parhau i sicrhau nad yw'n ofynnol iddynt gynnal priodasau o'r un rhyw.

Ni fydd unrhyw beth yn ein hargymhellion yn atal cwpl rhag dewis y math o briodas sydd ar gael dan y gyfraith bresennol ac a ddethlir yn unol â ffurfiau sy'n cael eu trysori ers blynyddoedd. Ac ni fydd ein hargymhellion yn gorfodi unrhyw grŵp crefyddol i gynnal priodas mewn ffurf neu mewn man sy'n groes i'w gredoau neu ei arferion. Er bod y newidiadau a argymhellir i'r drefn gyfreithiol yn arwyddocaol, ni fyddai llawer o seremonïau priodas yn ymddangos yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu cynnal heddiw.



### Termau a ddefnyddir gennym yn y Crynodeb hwn

**“Anglicanaidd”:** Eglwys Loegr a’r Eglwys yng Nghymru.

**“Safleoedd cymeradwy”:** dan y gyfraith bresennol, safleoedd lle gellir cynnal priodasau sifil, yn dilyn cymeradwyaeth gan awdurdod lleol dan Reoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005.

**“Gostegion”:** math o ragarweiniadau Anglicanaidd ar gyfer priodasau mewn eglwysi neu gapeli Anglicanaidd, yn cynnwys cyhoeddi bwriad i briodi mewn eglwys.

**“Seremoni cred”** neu **“briodas cred”:** dan y cynllun sy’n cael ei argymell gennym, seremoni yn cael ei gweinyddu gan weinydd cred (aelod o’r offeiriadaeth Anglicanaidd neu weinydd enwebedig). Gallai seremoni cred fod yn seremoni grefyddol neu (os yw’n cael ei galluogi gan y Llywodraeth) yn seremoni cred anghrefyddol.

**“Gweinyddion cred”:** dan y cynllun sy’n cael ei argymell gennym, offeiriaid Anglicanaidd a gweinyddion enwebedig.

**“Seremoni sifil”** neu **“briodas sifil”:** dan y gyfraith bresennol, y priodasau hynny a gynhelir mewn swyddfa gofrestru neu ar safle cymeradwy. Dan y cynllun sy’n cael ei argymell gennym, priodasau y gweinyddir ynddynt gan swyddog cofrestru, gweinyddion morol, neu (os yw wedi’i alluogi gan y Llywodraeth) gweinydd annibynnol.

**“Gweinyddion sifil”:** dan y cynllun sy’n cael ei argymell gennym, swyddogion cofrestru, gweinyddion morol ac (os ydynt wedi’u galluogi gan y Llywodraeth) gweinyddion annibynnol.

**“Trwydded gyffredin”:** dogfen a roddir gan Eglwys Loegr neu’r Eglwys yng Nghymru, fel rhan o un o’r tri math o ragarweiniad Anglicanaidd. Mae trwydded gyffredin yn awdurdodi priodas mewn eglwys neu gapel Anglicanaidd heb unrhyw gyfnod aros.

**“Priodas dan orfod”:** priodas y mae un o’r partïon, neu’r ddau ohonynt, wedi ymrwymo iddi heb gydsyniad rhydd a llawn oherwydd trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth, neu heb y galluedd meddyliol sydd ei angen i gydsynio â’r briodas (neu, pan fydd Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Oed Ieuengaf) 2022 mewn grym, cyn ei 18fed pen-blwydd), fel y nodir dan adran 121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

**“Swyddfa Gofrestru Gyffredinol”:** swyddfeydd a staff y Cofrestrydd Cyffredinol sy’n goruchwylio cofrestriad sifil genedigaethau, marwolaethau a phriodasau yng Nghymru a Lloegr.

**“Dogfen briodas”:** y ddogfen a roddir ar ôl rhagarweiniadau Anglicanaidd ac a ddychwelir ar gyfer cofrestru yn dilyn y seremoni, a gyflwynwyd dan y system atodlen dan Ddeddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru etc) 2019.

**“Seremoni anghymwys”:** seremoni sy’n arwain at briodas nad yw’n briodas ddilys nac yn ddi-rym oherwydd nad oedd y seremoni briodas yn cydymffurfio â’r ffurfioldebau gofynnol o dan y gyfraith.

**"Priodas ymelwol":** term a ddefnyddir i ddisgrifio priodasau mewn amgylchiadau lle mae un unigolyn yn priodi un arall, a hwnnw'n aml yn berson oedrannus neu heb alluedd, fel math o gam-drin ariannol. Os nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i briodi, gall priodas ymelwol (predatory) hefyd fod yn briodas dan orfod.

**"Rhagarweiniadau":** y camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn i gwpl gael ei awdurdodi i gael priodas sy'n rhwymo mewn cyfraith. Mae rhagarweiniadau yn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i gwpl briodi ei gilydd, ac yn helpu i ganfod priodasau ffug a gwarchod rhag priodasau dan orfod. Mae rhagarweiniadau sifil yn cael eu cynnal gan gofrestryddion arolygol a'r Cofrestrydd Cyffredinol; cynhelir rhagarweiniadau Anglicanaidd gan Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru.

**"Gwladolyn perthnasol":** dinesydd Prydeinig, dinesydd Gwyddelig, unigolyn â statws preswylio'n sefydlog neu cyn preswylio'n sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, neu unigolyn sy'n aros am benderfyniad ynglŷn â chais i'r cynllun preswylio'n sefydlog ar gyfer dinasyddion yr UE a gyflwynwyd ar 30 Mehefin 2021 neu cyn hynny. Gweler adran 62(1) o Ddeddf Mewnfudo 2014.

**"Atodlen":** dogfen a gyhoeddir gan y gwasanaeth cofrestru fel rhan o ragarweiniadau sifil, sy'n awdurdodi priodas y cwpl ar ôl i'r partïon roi rhybudd a phan fydd cyfnod aros wedi dod i ben, ac a ddefnyddir i gofrestru eu priodas. Dan y gyfraith bresennol, atodlen yw'r unig fath o ddogfen (ar wahân i drwydded y Cofrestrydd Cyffredinol) sy'n darparu awdurdod cyfreithiol ar gyfer priodasau sifil, priodasau Iddewig a phriodasau Crynwyr, a phriodasau crefyddol eraill mewn adeiladau cofrestredig. Gellir ei defnyddio hefyd yn lle rhagarweiniadau Anglicanaidd i awdurdodi priodas Anglicanaidd mewn eglwys neu gapel.

**"Trwydded arbennig":** dogfen a roddir gan Archesgob Caergaint dan Ddeddf Trwyddedau Eglwysig 1533, fel rhan o un o'r tri math o ragarweiniad Anglicanaidd. Gall trwydded arbennig awdurdodi cynnal priodas Anglicanaidd yn unrhyw leoliad a enwir yn y drwydded, heb gyfnod aros.

**"Rhagarweiniadau sifil cyffredinol":** system lle byddai'n ofynnol i bob cwpl fynd drwy ragarweiniadau sifil cyn priodi.

**"Priodas ddi-rym" neu "briodas annilys":** mae priodas ddi-rym yn annilys neu'n ddirymedd, sy'n golygu bod y briodas yn cael ei thrin fel un nad yw erioed wedi dod i fodolaeth. Bydd gan y partïon mewn priodas ddi-rym hawl i wneud cais am ryddhad ariannol, fel pe baent yn ysgaru; nid yw hyn yn wir am bartïon mewn seremoni anghymwys.

**"Dirymadwy":** mae priodas yn ddirymadwy os gellir sefydlu meini prawf penodol, er enghraifft, peidio â chyflawni'r briodas. Yn wahanol i briodas ddi-rym, mae priodas ddirymadwy yn briodas ddilys nes iddi gael ei dirymu drwy archddyfarniad dirymedd.

# Am ein prosiect

Yn 2015, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad cwmpasu o gyfraith priodasau, er mwyn nodi'r materion y byddai angen rhoi sylw iddynt cyn y gellid datblygu cynigion ar gyfer diwygio. Cyhoeddasom ein casgliadau o'r gwaith rhagarweiniol hwn yn *Priodi: Papur Cwmpasu*.

Dechreuodd ein hadolygiad llawn o gyfraith priodasau ym mis Gorffennaf 2019. Roedd y Cylch Gorchwyl ar gyfer ein hadolygiad (a nodir yn Atodiad 1 i'n Hadroddiad llawn) yn seiliedig ar ein prosiect cwmpasu ac roedd yn nodi pum egwyddor a ddylai fod yn sail i'n hargymhellion ar gyfer diwygio:

- Sicrwydd a symlrwydd,
- Tegwch a chydraddoldeb,
- Gwarchod buddiannau'r wladwriaeth,
- Parchu dymuniadau a chredoau'r unigolion, a
- Dileu unrhyw reoleiddio diangen, er mwyn cynyddu'r dewis a lleihau cost lleoliadau priodas i gyplau.

Amcan ein prosiect oedd nodi diwygiadau i gyfraith priodasau a fydd yn caniatáu mwy o ddewis o fewn strwythur cyfreithiol syml, teg a chyson. Mae cyfraith priodasau yn cynnwys yr holl ffurfioldebau y mae'n ofynnol i gwpl fynd drwyddynt er mwyn cael priodas sy'n cael ei chydnabod gan y gyfraith. O ganlyniad, mae'r prosiect wedi ystyried pob un o'r ffurfioldebau hyn:


- Y rhagarweiniadau cyfreithiol a ddylai fod yn ofynnol cyn priodas.
- Ble dylid gallu cynnal priodasau, gan ystyried, er enghraifft, priodasau yn yr awyr agored, ar y môr, ac ar safleoedd milwrol.
- Sut y gallai cynllun newydd gynnwys priodasau a gynhelir gan sefydliadau cred anghrefyddol a dathlwyr (celebrants) annibynnol (os bydd y Llywodraeth yn penderfynu galluogi un o'r grwpiau hyn, neu'r ddau ohonynt, i gynnal priodasau sy'n rhwymo'n gyfreithiol).
- A ddylai addunedau penodol fod yn ofynnol yn ystod y seremoni.
- Sut y dylid cofrestru priodasau.
- Beth ddylai'r canlyniadau fod i gyplau nad ydynt yn cydymffurfio ag unrhyw rai o'r gofynion.

Nid yw'r materion a ganlyn yn cael eu llywodraethu gan gyfraith priodasau, ac o ganlyniad maent y tu allan i gwmpas y prosiect:

- Pwy sy'n gymwys i briodi (er enghraifft, ar sail oed neu alluedd meddyliol).
- Hawliau a chyfrifoldebau priodas.
- Cyfraith ysgariad.
- Cydnabod priodasau tramor.
- Gwasanaethau priodas ategol (er enghraifft, blodau, arlwyo, yswiriant).
- Ffurfio partneriaethau sifil.

Yn olaf, mae rhai materion polisi sy'n cael eu heithrio gan ein Cylch Gorchwyl:

- Cyflwyno priodas sifil gyffredinol.
- Dyletswydd Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru i gynnal seremonïau priodas cyplau cymwys.
- A ddylid ehangu'r grwpiau a all weinyddu priodasau i gynnwys sefydliadau cred anghrefyddol neu ddathlwyr annibynnol.
- A ddylai fod yn ofynnol i grwpiau crefyddol weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw, a benderfynwyd gan y Senedd yn dilyn dadl gyhoeddus eang.



## Y Papur Ymgynghori

Cyhoeddasom ein Papur Ymgynghori ym mis Medi 2020 a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus pedwar mis. Oherwydd pandemig Covid-19, cynaliasom ein hymgynghoriad ar-lein. Cynhaliwyd nifer o sesiynau holi ac ateb byw a oedd yn agored i'r cyhoedd, yn ogystal â chyfarfodydd bord gron a chyfarfodydd â'r rhai sydd â diddordeb arbennig mewn cyfraith priodasau. Cawsom ymateb aruthrol i'n hymgynghoriad, â mwy na 1,600 o ymatebion. Roedd yr ymgyngoreion yn cynrychioli ystod eang o grwpiau ac unigolion. Er mai aelodau unigol o'r cyhoedd oedd y rhan fwyaf o'r ymgyngoreion, clywsom hefyd gan unigolion a grwpiau sy'n ymwneud yn broffesiynol â phriodasau.

Mae'r gyfraith yn gymhleth, ac mae'n debyg nad yw'n syndod bod llawer o gamddealltwriaeth ynglŷn â hi. Yn ystod ein hymgynghoriad rydym wedi gweld camsyniadau amrywiol ynglŷn â beth yw'r rheolau presennol, pam y cawsant eu creu a sut y maent yn gweithio yn ymarferol. Er enghraifft, mae gweiddi gwrthwynebiad munud olaf cyn yr addunedau yn digwydd yn aml mewn ffilmiau. Ond yn anaml iawn y mae hynny'n digwydd mewn gwirionedd. Yn wir, mae'n bosibl na fydd hyn yn digwydd o gwbl: yn ystod ein gwaith ni, ni welwyd yr un enghraifft bendant. Mae camsyniad cyffredin ymhlith ymgyngoreion bod y gyfraith yn mynnu bod angen 'drysau agored' i alluogi'r math hwn o ymyriad. Mewn gwirionedd, dim ond rhai priodasau crefyddol (y rhai ar wahân i rai Anglicanaidd, priodasau Iddewig a phriodasau Crynwyr) a phriodasau sifil sy'n gorfod bod ar agor i'r cyhoedd, ac roedd y rheol honno wedi'i hetifeddu o gyfyngiadau o'r 17eg ganrif i atal Anghydffurfwyr Protestannaidd rhag cyfarfod i addoli.

## Datblygiadau a gwaith ar wahân gan y Llywodraeth yn ystod y prosiect

Yn ystod y prosiect, gwelwyd datblygiadau amrywiol sy'n berthnasol i'n hadolygiad, gan gynnwys gwaith ar wahân gan y Llywodraeth.

### Cyflwyno'r system atodlen

Ym mis Mai 2021, cyflwynodd y Llywodraeth system atodlen ar gyfer priodasau yng Nghymru a Lloegr dan Reoliadau Cofrestru Priodasau 2021. Rydym yn croesawu'r diwygiadau hyn, a thrwy gydol ein prosiect rydym wedi sicrhau y byddai ein hargymhellion yn gydnaws â hwy.

### Tystiolaeth am briodasau crefyddol yn unig

Yn 2018, argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol i Gymhwyso Cyfraith Sharia yng Nghymru a Lloegr ddiwygiadau i Ddeddf Priodas 1949 a fyddai'n golygu y gallai dathlwyr priodasau gael eu cosbi pe na baent yn sicrhau bod y briodas wedi'i chofrestru'n sifil hefyd. Yn dilyn yr adolygiad hwn, ymrwymodd y Llywodraeth yn ei strategaeth cymunedau integredig i archwilio heriau cyfreithiol ac ymarferol diwygiadau cyfyngedig yn ymwneud â'r gyfraith ar briodas a phriodasau crefyddol.

Yn 2021 a 2022, cyhoeddodd prosiect ymchwil annibynnol yn cael ei ariannu gan Sefydliad Nuffield ei ganfyddiadau ynglŷn â pham y mae cyplau'n priodi mewn seremonïau nad ydynt yn rhwymo'n gyfreithiol. Roedd yr astudiaeth, *When is a wedding not a marriage? Exploring non- legally binding ceremonies*, yn cynnwys grwpiau ffocws a chyfweliadau gydag unigolion a oedd wedi mynd drwy seremoni nad yw'n rhwymo'n gyfreithiol ac unigolion sy'n cynnal seremonïau o'r fath.

Deallwn y bydd y Llywodraeth yn sicrhau ei bod yn ystyried gwaith ac argymhellion adroddiad yr Adolygiad Sharia Annibynnol, adroddiad prosiect Nuffield, a'n Hadroddiad ni wrth ystyried y ddadl dros ddiwygio cynhwysfawr a pharhaus.

### Priodasau dyneiddiol

Cyn, a thrwy gydol ein prosiect, bu ymgyrch weithredol i ganiatáu i sefydliadau cred anghrefyddol, megis Dyneiddwyr, gynnal seremonïau priodas sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

Roedd Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 yn rhoi'r pŵer i'r Llywodraeth wneud darpariaeth ar gyfer priodas gan sefydliadau sy'n bodoli'n bennaf neu'n gyfan gwbl er mwyn hybu system o gredoau anghrefyddol sy'n ymwneud â moesoldeb neu foeseg. Yn dilyn ei hymgynghoriad ei hun, penderfynodd y Llywodraeth beidio ag ymarfer yr hawl i ganiatáu priodas gan sefydliadau cred anghrefyddol, ac yn hytrach, gofynnodd i Gomisiwn y Gyfraith gynnal ei brosiect cwmpasu.

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd y Grŵp Dyneiddiol Seneddol Hollbleidiol adroddiad am ei ymchwiliad i gydnabyddiaeth gyfreithiol o briodasau Dyneiddiol. Argymhellodd y dylai'r Llywodraeth ddefnyddio ei phŵer dan ddeddfwriaeth 2013 i roi cydnabyddiaeth gyfreithiol i briodasau Dyneiddiol, gan ddadlau fod achos cryf iawn dros ddiwygio o'r fath.

Yn fwy diweddar, heriodd chwe chwpl ddiffyg cydnabyddiaeth y gyfraith bresennol o briodasau Dyneiddiol ar sail hawliau dynol. Yn ei ddyfarniad yn 2020, daeth yr Uchel Lys i'r casgliad bod cyfraith priodasau yn trin cyplau Dyneiddiol yn wahanol i'r rhai sydd â chredoau crefyddol; fodd bynnag, daeth i'r casgliad bod modd cyfiawnhau'r driniaeth wahanol oherwydd yr adolygiad ehangach o gyfraith priodasau a oedd yn cael ei gynnal.

Roedd y llys yn cytuno bod y Llywodraeth wedi dangos bod nod dilys i geisio mynd i'r afael â thriniaeth wahanol fel rhan o ddiwygiad o gyfraith priodasau ar raddfa eang.

Nid yw penderfyniad yr Uchel Lys wedi effeithio ar ein hadolygiad ni. Fel y nodir yn ein Cylch Gorchwyl, nid yw'r prosiect hwn wedi ystyried a ddylai sefydliadau cred anghrefyddol, gan gynnwys Dyneiddwyr, allu cynnal priodasau sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Yn unol â'r Cylch Gorchwyl rydym yn gwneud argymhellion a fyddai'n caniatáu i briodasau a gynhelir gan sefydliadau cred anghrefyddol gael eu cydnabod yn gyfreithiol yn ein cynllun newydd, pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu eu galluogi i wneud hynny.

### Diwygio i ganiatáu i briodasau ddigwydd yn yr awyr agored

Pan gyhoeddwyd y prosiect hwn, cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd y byddai'n ymgymryd â gwaith ar wahân, ochr yn ochr â'n prosiect ni, i edrych i ba raddau y gellid diwygio rheoliadau sy'n ymwneud â safleoedd cymeradwy er mwyn caniatáu lleoliadau awyr agored ar gyfer priodasau sifil a seremonïau partneriaeth sifil. O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn, a'r effaith arwyddocaol y mae pandemig Covid-19 wedi'i gael ar gyplau a'r diwydiant priodasau, cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau yn caniatáu i briodasau sifil gael eu cynnal yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu gwneud darpariaeth debyg fel bod modd cynnal priodasau ar dir mannau addoli cofrestredig ac eglwysi Anglicanaidd a chapeli trwyddedig. Mae'r diwygiadau hyn yn ategu'r rheolau arbennig ar gyfer Iddewon a Chrynwyr drwy ganiatáu i briodasau gael eu cynnal y tu allan i adeiladau, ond mewn ffordd lawer mwy cyfyngedig nag o dan y cynllun a argymhellir gennym ni.

# Y gyfraith bresennol

## Gweinyddu priodasau dan Ddeddf Priodas 1949

### Priodasau sifil

**Mewn swyddfa gofrestru**

- Dim gwasanaeth crefyddol
- Drysau agored
- Dau dyst
- Ffurf geiriau rhagnodedig
- Presenoldeb Cofrestrydd Arolygol a Chofrestrydd

**Ar safle cymeradwy**

- Dim gwasanaeth crefyddol
- Drysau agored
- Dau dyst
- Ffurf geiriau rhagnodedig
- Presenoldeb Cofrestrydd Arolygol a Chofrestrydd

### Priodasau crefyddol

**Crefyddau eraill**

- Y fath ffurf a seremoni ag y mynna'r partïon
- Drysau agored
- Dau dyst
- Ffurf geiriau rhagnodedig
- Presenoldeb Cofrestrydd neu Unigolyn Awdurdodedig
- Mewn man addoli cofrestredig

**Iddewon**

- Rhwng pobl sy'n arddel y ffydd Iddewig
- Yn ôl arferion yr Iddewon
- Dim cyfyngiad o ran man

**Cymdeithas y Cyfeillion**

- Rhwng aelodau Cymdeithas y Cyfeillion neu unigolion eraill sydd wedi'u hawdurdodi gan y Gymdeithas
- Yn ôl arferion Cymdeithas y Cyfeillion
- Dim cyfyngiad o ran man

**Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru**

- Yn ôl defodau a seremonïau'r Eglwys
- Dau dyst
- Cynhelir gan rywun mewn Urddau Eglwysig
- Mewn eglwys neu gapel neu fan arall wedi'i awdurdodi

◆ O dan Ran III o Ddeddf Priodasau 1949: Priodasau o dan Dystysgrif Cofrestrydd Arolygol

◆ O dan Ran II o Ddeddf Priodasau 1949: Priodas yn unol â defodau Eglwys Loegr

## Yr achos dros ddiwygio

Mae'r gyfraith yn hynafol ac mae wedi datblygu'n raddol dros y blynyddoedd i ddarparu ar gyfer priodasau gan wahanol grwpiau. Fel tŷ sydd wedi cael mwy nag un estyniad, mae cynllun a ddyluniwyd yn wreiddiol ar gyfer math arbennig o briodas wedi ehangu dros y 250 mlynedd diwethaf i gynnwys sefyllfaoedd amrywiol eraill, gan arwain at gasgliad o reolau anghydweddol. Y canlyniad yw cyfraith sy'n anghyson ac yn gymhleth, yn aneffeithlon, yn annheg ac yn gyfyngol heb fod angen.

## Enghreifftiau o broblemau â'r gyfraith bresennol

### Anghysondeb a chymhlethdod

Mae'r rheolau sy'n gymwys i briodasau yn anghyson, â gwahanol reolau yn gymwys i wahanol fathau o briodasau. Er enghraifft, nid oes rheolau safonol yn ymwneud â ble y gellir cynnal priodas.

- Gellir cynnal priodasau Iddewig a phriodasau Crynwyr yn unrhyw leoliad.
- Fel arfer rhaid cynnal priodas Anglicanaidd mewn eglwys neu gapel cyhoeddus, ond mewn amgylchiadau eithriadol gallant ddigwydd yn unrhyw le ar awdurdod trwydded arbennig Archesgob Caergaint.
- Rhaid i bob priodas grefyddol arall ddigwydd mewn man addoli cofrestredig.
- Rhaid cynnal priodasau sifil mewn swyddfa gofrestru neu ar safle cymeradwy neu ar eu tir.

### Aneffeithlonrwydd

Mae'r gyfraith bresennol yn nodi bod yn rhaid i berson sy'n rhoi rhybudd drwy ragarweiniadau sifil wneud hynny yn bersonol yn yr ardal gofrestru lle mae wedi bod yn byw am y saith niwrnod diwethaf. Nid yw'r gofyniad preswylio hwn yn gweithredu unrhyw bwrpas clir.

Yna rhoddir cyhoeddusrwydd i'r briodas arfaethedig drwy osod rhybudd ar fur y swyddfa gofrestru leol. Yn y gymdeithas drefol a symudol sy'n bodoli i raddau helaeth heddiw, nid yw gosod rhybudd ar fur y swyddfa gofrestru leol yn ffordd effeithiol o ddarganfod rhwystrau cyfreithiol i briodas (megis priodas flaenorol sy'n dal i fodoli).

## Rheoleiddio diangen a chostus

Mae'r gyfraith bresennol yn cynnwys llawer o reoliadau manwl yn ymwneud â'r safleoedd y gellir eu cymeradwyo ar gyfer priodasau sifil. Mae'r rheolau hyn a'r broses ymgeisio yn aml yn gorfodi costau sylweddol ar leoliadau sydd eisiau cynnal priodasau sifil. Gallai costau cymeradwyo a chydymffurfio fod yn rhy ddrud i rai busnesau bach neu leoliadau cymunedol, a fydd o ganlyniad yn methu â chynnig y gwasanaethau hyn i'r cyhoedd.

Nid yw pwrpas y rheoliadau hyn yn glir. Nid yw'n ymddangos bod eu hangen o safbwynt diogelwch nac o safbwynt rheoleiddiol. Ond mae'n ymddangos mai'r canlyniad yw cyfyngu ar gystadleuaeth ymhlith busnesau a lleihau dewis a chynyddu costau i gyplau sy'n priodi.

## Annheg a chyfyngol

Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i gyplau naill ai gael priodas grefyddol neu briodas sifil.

- Nid oes opsiwn i gael priodas yn ôl credoau anghrefyddol.
- Nid yw'r gyfraith yn darparu ar gyfer cyplau sydd â chredoau gwahanol. Yn gyffredinol, bydd yn rhaid i gyplau sydd eisiau priodas rhyng-ffydd ddewis rhwng seremoni sy'n adlewyrchu ffydd neu gredoau un ohonynt, a seremoni nad yw'n adlewyrchu ffydd neu gredoau yr un ohonynt.
- Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i gyplau gynnwys elfennau mewn priodas sifil sy'n adlewyrchu credoau crefyddol.
- Mae'r rheolau sy'n ymwneud â ble y gellir cynnal priodasau amrywiol yn darparu dim ond ar gyfer cyplau y mae eu credoau yn nodi y gallant briodi mewn mathau arbennig o leoedd. Mae'r rheolau'n cyfyngu ar ddewis cyplau o leoedd priodi heb reswm da.
- Nid yw rhai grwpiau crefyddol yn gweld eu man addoli fel y lle gorau neu fwyaf ystyrlon i briodi. Nid oes gan rai grwpiau crefyddol fan addoli (neu mae eu safle yn rhy fach neu'n rhy bell i rai aelodau ei ddefnyddio) neu nid ydynt yn addoli dan do.
- Mae cyplau sy'n cael priodas sifil hefyd yn wynebu cyfyngiadau. Byddai'n well gan lawer briodi mewn lleoliadau sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw, lle na ellir cynnal priodas sy'n cael ei chydnabod gan y gyfraith ar hyn o bryd.

# Ein hadroddiad a’r crynodeb hwn


Yn ein Hadroddiad, rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio sy’n ymwneud â thri phrif gam y broses gyfreithiol o briodi:

1. y rhagarweiniadau, sy’n rhoi awdurdod cyfreithiol i gynnal priodas;
2. y seremoni, gan gynnwys ble y gellir cynnal priodas a’r gofynion cyfreithiol ynglŷn â chynnwys y seremoni; a
3. cofrestru’r briodas.


Yng ngweddill y crynodeb hwn, rydym yn nodi prif nodweddion ein cynllun ym mhob un o’r tri phrif gam hyn. Yna rydym yn egluro ein hargymhellion mewn cysylltiad â dilysrwydd priodasau lle na chydymffurfiwyd â’r ffurfioldebau ar gyfer priodas (gan gynnwys y canlyniad ar gyfer priodasau crefyddol yn unig). Yn olaf, rydym yn amlinellu ein hargymhellion ar gyfer mesurau brys i ganiatáu i gyfraith priodasau ddarparu’n well ar gyfer unrhyw argyfwng cenedlaethol yn y dyfodol, yn seiliedig ar brofiad o Covid-19. Nid ydym yn y crynodeb hwn yn trafod y diwygiadau rydym yn eu hargymell ar gyfer rhai mathau pwysig, ond anarferol, o briodasau: priodasau i bobl sy’n gaeth i’w tai, pobl sydd â salwch terfynol a phobl sydd yn y carchar. Nid ydym ychwaith yn trafod y newidiadau y gellid eu gwneud i’r broses ar gyfer troi partneriaeth sifil bresennol yn briodas. Ymdrinnir â’r holl faterion hyn yn fanwl yn yr Adroddiad llawn.



## Y Cynllun rydym yn ei Argymell: y Llwybr i Briodas (Rhagarweiniadau Sifil)



## Y Cynllun rydym yn ei Argymell: y Llwybr i Briodas (Rhagarweiniadau Anglicanaidd)




*Bydd trwyddedau cyffredin ac arbennig yn parhau i allu awdurdodi priodasau Anglicanaidd

# Trosolwg o'n cynllun seiliedig ar weinydd

## Y rhagarweiniadau

Mae'r rhagarweiniadau – y camau y mae'n rhaid i gwpl eu cymryd cyn y rhoddir awdurdod cyfreithiol i'w priodas fynd yn ei blaen – yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses o briodi. Eu rôl yw cadarnhau, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, bod y cwpl yn rhydd i briodi ei gilydd, a nodi ac atal priodasau dan orfod a phriodasau ffug, gan gynnwys priodasau ymelwol lle nad oes gan y dioddefwr y galluedd i gydsynio â phriodas.

O dan ein cynllun, cyn priodi, bydd yn dal yn ofynnol i gyplau roi rhybudd o'u bwriad i briodi. Bydd y rhan fwyaf o gyplau yn hysbysu'r gwasanaeth cofrestru drwy'r system rhagarweiniadau sifil. Mae hynny'n digwydd p'un a ydynt yn cael priodas sifil ynteu briodas cred. Fodd bynnag, bydd yn dal yn bosibl i gyplau sy'n cael priodas Anglicanaidd hysbysu'r awdurdodau eglwysig drwy ragarweiniadau Anglicanaidd, fel arfer drwy alw gostegion.

Yn y crynodeb a ganlyn rydym yn cymryd yn ganiataol bod y ddau unigolyn yn wladolion perthnasol neu eu bod wedi'u heithrio o reolau mewnfudo. Trafodir y gofynion ychwanegol sy'n gymwys i'r rhai hynny nad ydynt wedi'u heithrio o reolau mewnfudo yn ein Hadroddiad.

### Rhagarweiniadau sifil

O dan y rhagarweiniadau sifil, bydd angen i'r ddau unigolyn hysbysu swyddog cofrestru. Byddant yn gallu rhoi rhybudd mewn unrhyw ardal gofrestru. Ni fydd pobl yn cael eu cyfyngu mwyach i hysbysu yn yr ardal lle maent yn byw, felly gallent ddewis hysbysu mewn ardal sy'n fwy cyfleus iddynt; er enghraifft, yr ardal lle maent yn gweithio, yn ymweld â hi, neu lle maent yn bwriadu priodi.

Bydd hefyd yn bosibl i bobl roi eu rhybudd cychwynnol ar-lein, yn hytrach na wyneb yn wyneb.

Bydd y gallu i roi rhybudd cychwynnol ar-lein yn gyfleus iawn i rai cyplau. Bydd yn galluogi pobl sy'n byw dramor ond sy'n bwriadu priodi yng Nghymru a Lloegr i ddechrau'r broses ragarweiniadau o'u cartref. Bydd cwpl sy'n byw dramor wedyn yn gallu priodi yng Nghymru a Lloegr mewn un daith fer, er y bydd angen iddynt fod yng Nghymru a Lloegr am o leiaf bum niwrnod cyn eu priodas. Bydd ei gwneud hi'n haws i gyplau sy'n byw dramor briodi yng Nghymru a Lloegr yn helpu cyplau o Brydain sy'n byw dramor ac sydd eisiau dathlu eu priodasau gyda ffrindiau a theulu gartref. Bydd hefyd yn galluogi cyplau eraill i ddod i Gymru a Lloegr ar gyfer eu priodas, yn union fel y maent yn gallu gwneud yn barod yn yr Alban, er budd yr economi.

Fel rhan o'r broses ragarweiniadau, bydd yn ofynnol i'r cwpl gael eu cyfweld gan swyddog cofrestru wyneb yn wyneb, ac ar wahân i'w gilydd. Mae'r cyfweliad wyneb yn wyneb hwn yn chwarae rhan bwysig drwy helpu i ganfod os yw un aelod o'r cwpl yn cael ei orfodi neu ei wthio i briodas, gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes gan un o'r unigolion alluedd i briodi.

Os bydd cwpl yn hysbysu wyneb yn wyneb, bydd modd cynnal y cyfweliadau â'r cwpl yr un pryd. Os bydd cwpl yn hysbysu ar-lein, bydd angen cynnal y cyfweliadau wyneb yn wyneb o leiaf bum niwrnod cyn cyhoeddi'r atodlen sy'n awdurdodi'r briodas.

Ar ôl i'r ddau unigolyn roi rhybudd, rhaid aros am 28 diwrnod cyn y gallant gael awdurdod i briodi (y cyfnod a ddarperir dan y gyfraith bresennol).

Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhoddir cyhoeddusrwydd ar-lein i'r rhybudd o'r briodas, a bydd y rhybudd i'w weld mewn swyddfeydd cofrestru fel bod modd nodi a thynnu sylw at rwystrau a fyddai'n atal y briodas. Bydd rhoi cyhoeddusrwydd ar-lein i'r rhybuddion yn ei gwneud hi'n llawer haws i'r rhai sy'n gwybod am rwystr ddod i wybod am briodas fwriadedig. Mae hefyd yn pwysleisio

bod priodas yn fater cyhoeddus a bod y ffaith fod cwpl yn bwriadu priodi yn rhywbeth sy'n cael ei reoleiddio gan y gyfraith. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, byddai rhoi cyhoeddusrwydd i'r briodas yn achosi risg; er enghraifft, risg o ymosodiad gan gyn-bartner treisgar a allai gyflawni camdriniaeth seiliedig ar "anrhydedd". O ganlyniad, bydd cwpl yn gallu gwneud cais i gael eu heithrio rhag rhoi cyhoeddusrwydd ar-lein i'w priodas os byddai rhoi cyhoeddusrwydd ar-lein yn rhoi'r cwpl, neu aelod o'i aelwyd neu ei deulu, mewn perygl o niwed.

Os oes gan rywun (aelod o'r teulu, neu ffrind, neu rywun sy'n gweithredu yn rhinwedd swydd broffesiynol fel arfer) resymau dilys dros bryderu y gallai person arall fod mewn perygl o gael ei orfodi i briodi, bydd yn bosibl iddo ofyn am gofnodi cafeat ar y system cyn bod unrhyw rybudd o briodas wedi'i roi. Bydd hyn yn darparu amddiffyniad ychwanegol rhag risgiau priodasau dan orfod a phriodasau ymelwol.

Ar ôl cwblhau'r rhagarweiniadau, a phan fydd y cyfnod aros o 28 diwrnod drosodd, bydd y cwpl yn cael eu hatodlen. Gan fod y rheoleiddio dan ein cynllun ni'n canolbwyntio ar y gweinydd, bydd yr atodlen yn nodi'r gweinydd unigol neu'r math o weinydd a fydd yn gyfrifol am weinyddu yn y briodas. Bydd proses ar gyfer diwygio'r atodlen os bydd newidiadau i'r gweinydd unigol neu'r math o weinydd, a'r posibilrwydd o eilyddion munud olaf a allai fod yn angenrheidiol os bydd y gweinydd yn methu â bod yn bresennol yn y briodas yn annisgwyl. Bydd yr atodlen yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad y rhoddir hi.



Bydd modd lleihau'r cyfnod aros o 28 diwrnod o hyd, gan gynnwys er mwyn gallu cynnal priodas heb gyfnod aros. Mae angen darpariaeth i wneud hynny, er enghraifft, er mwyn hwyluso priodasau mewn achosion lle mae gan un aelod o'r cwpl salwch terfynol.

**Rhagarweiniadau Anglicanaidd**

O dan ein cynllun ni, bydd gostegion, trwyddedau cyffredin a thrwyddedau arbennig yn parhau'n rhagarweiniadau cyfreithlon i briodasau Anglicanaidd, hynny yw, priodasau sy'n cael eu gweinyddu gan glerigwyr Anglicanaidd.

Yn fwyaf arbennig, rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio gostegion a thrwyddedau cyffredin, i wneud y rhagarweiniadau hyn yn fwy trylwyr drwy ddarparu amddiffyniad rhag priodasau dan orfod a phriodasau ymelwol. Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion yn ymwneud â thrwyddedau arbennig, sy'n cael eu rhoi, ac a fydd yn dal i gael eu rhoi, yn ôl disgresiwn Archesgob Caergaint.

O dan ein hargymhellion, bydd gan gyplau sy'n defnyddio rhagarweiniadau Anglicanaidd yr un rhwymedigaeth i ddarparu tystiolaeth ddogfennol â chyplau sy'n defnyddio rhagarweiniadau sifil. Mae darparu tystiolaeth ddogfennol yn bwysig fel ffordd o sicrhau bod pob aelod o'r cwpl yn gymwys i briodi.

Os yw cwpl yn gwneud cais am drwydded gyffredin bydd yn ofynnol i'r ddau ohonynt wneud datganiad ar wahân yn nodi eu bod yn rhydd i briodi, ac yn achos cwpl sy'n priodi ar ôl gostegion bydd yn ofynnol i'r ddau ohonynt gael cyfarfod ar wahân â'r periglor yn y plwyf lle maent yn byw (neu blwyfi, os nad ydynt yn byw yn yr un plwyf). Mae'r mesurau hyn sy'n diogelu rhag priodasau dan orfod a phriodasau ymelwol yn bwysig iawn os yw'r briodas drwy drwydded gyffredin, a derbyn na roddir cyhoeddusrwydd ymlaen llaw i drwyddedau o'r fath ac, o ganlyniad, nad ydynt yn caniatáu cyfle i fynegi gwrthwynebiadau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu y dylid cyflwyno mesurau diogelu o'r fath lle mae'r briodas drwy ostegion. Er mai bwriad gostegion yw rhoi cyhoeddusrwydd i briodas fwriadedig a sicrhau bod modd mynegi gwrthwynebiadau, byddai'n dibynnu i raddau helaeth a yw'r rhai sy'n mynd i'r eglwys neu'r eglwysi lle cyhoeddir y gostegion yn adnabod y cwpl. Nid oes angen cynnal y cyfarfod cyn galw'r gostegion, ond rhaid ei gynnal o leiaf bum niwrnod cyn rhoi dogfen y briodas.

Os defnyddir gostegion, dim ond yn y plwyf(i) lle mae'r cwpl yn byw y bydd yn ofynnol eu galw. Mae hynny'n golygu y bydd angen galw'r gostegion yn y ddau blwyf os yw'r cyplau'n byw mewn plwyfi gwahanol, ond os ydynt yn byw yn yr un plwyf dim ond yno y bydd angen galw'r gostegion. Ni fydd mwyach yn ofyniad cyfreithiol i alw'r gostegion hefyd yn y plwyf lle cynhelir y briodas. Mater i'r eglwys Anglicanaidd fydd penderfynu a ddylid galw gostegion hefyd yn y plwyf lle cynhelir y briodas at ddibenion eglwysig. Os nad yw'n bosibl galw'r gostegion yn y plwyf neu'r plwyfi lle mae'r cwpl yn byw, yna bydd angen i'r cwpl gael trwydded gyffredin i gwblhau rhagarweiniadau Anglicanaidd, neu ddefnyddio rhagarweiniadau sifil.

Ar ôl cwblhau gostegion, neu gael trwydded gyffredin neu arbennig, rhoddir dogfen briodas. Mae dogfen briodas yn cyflawni swyddogaeth debyg i'r atodlen a roddir ar ôl cwblhau rhagarweiniadau sifil.

.

**Priodas ymelwol**


Yn ystod ein prosiect, mynegwyd llawer o bryder wrthym ni, ac yn y Senedd, ynglŷn â phriodasau ymelwol (predatory). Roedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf ag amgylchiadau lle mae pobl hŷn, gan gynnwys rhai â dementia, wedi priodi heb yn wybod i'w teulu. Effaith y briodas yw dirymu ewyllys yr unigolyn, gan olygu mai ei briod fydd yn elwa pan fydd y person oedrannus yn marw dan reolau diffyg ewyllys, gan gael blaenoriaeth dros blant y person hwnnw ac aelodau eraill o'r teulu. Rydym wedi clywed am achosion lle mae pryderon bod priodasau wedi'u cynnal pan nad oedd gan unigolyn alluedd i briodi.

Yn ôl y gyfraith, mae achosi i berson sydd heb alluedd briodi neu ymrwymo i briodas yn drosedd priodas dan orfod. Nid yw ein hargymhellion ni yn effeithio ar y drosedd honno. Ond, wrth gwrs, mae'n well atal priodasau o'r fath rhag digwydd. Bydd ein hargymhellion yn ategu'r cyfleoedd i atal priodasau ymelwol.

- Mae ein hargymhellion yn gwneud y rhagarweiniadau'n fwy trylwyr, er enghraifft drwy sicrhau bod pob aelod o'r cwpl yn cael ei gyfweld ar wahân (p'un a yw'r cwpl yn defnyddio rhagarweiniadau sifil neu Anglicanaidd). Mae'r gofyniad hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i'r swyddog cofrestru, neu'r sawl sy'n gyfrifol am ragarweiniadau Anglicanaidd, fod yn fodlon bod gan y ddau aelod o'r cwpl gapasiti i briodi.
- Bydd yn bosibl i rywun sy'n pryderu y gallai unigolyn gael ei dynnu i mewn i briodas ymelwol wneud cafeat a fydd yn sicrhau na all yr unigolyn hwnnw briodi cyn cyflwyno rhybudd o briodas.
- Bydd gan weinyddion ddyletswydd benodol i sicrhau bod y cwpl yn mynegi cydsyniad i briodi yn rhydd yn ystod y seremoni. Mae'r ddyletswydd hon o reidrwydd yn cynnwys sicrhau bod gan y ddau barti gapasiti i briodi.

Nid yw ystyried effaith priodas ar ewyllys unigolyn yn rhan o gwmpas y prosiect hwn ar gyfraith priodasau. Fodd bynnag, mae'r mater hwnnw'n cael ei ystyried gan Gomisiwn y Gyfraith yn ein prosiect ar Wneud Ewyllys. Yn ein Papur Ymgynghori ar y prosiect hwnnw rydym wedi gofyn a ddylai priodas barhau i ddirymu ewyllys. Os bydd yn parhau i wneud hynny, rydym wedi cynnig yn amodol y dylid gwneud eithriad mewn achosion lle'r oedd unigolyn, ar adeg y briodas, wedi colli galluedd i wneud ewyllys. Bydd y newidiadau hynny, os byddant yn dod yn argymhellion ac yn cael eu rhoi ar waith, yn datrys un o ganlyniadau ariannol mwyaf arwyddocaol priodas ymelwol. Drwy wneud hynny, byddent hefyd yn dileu cymhelliant ariannol pwysig i'r rhai sy'n ceisio priodas ymelwol.

## Y Cynllun rydym yn ei Argymell: Mathau o Briodasau



## Gweinyddion

Yn ganolog i'n hargymhellion mae'r cysyniad o weinydd. Bydd yn rhaid i weinydd fod yn bresennol ym mhob priodas, a bydd ganddo'r un dyletswyddau cyfreithiol mewn cysylltiad â'r briodas, pa un a yw'n seremoni sifil neu gred. Mae'r rheoliadau o dan ein cynllun ni'n canolbwyntio ar y gweinydd, yn hytrach na'r adeilad.

Er ein bod yn argymell y dylid cael un cysyniad o weinydd, rydym hefyd yn cydnabod y bydd gwahanol fathau o weinyddion yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o briodasau. O dan ein cynllun bydd gweinyddion sifil a gweinyddion cred.

Er y byddai newid i gynllun sy'n seiliedig ar weinyddion, o'r model presennol sy'n seiliedig ar adeiladau, yn newid arwyddocaol yn y ffordd y mae cyfraith Cymru a Lloegr yn rheoleiddio priodasau, ni fyddai'n newid unigryw na heb ei brofi. Ymhlith yr awdurdodaethau cyfagos, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon, Jersey a Guernsey, mae pob un erbyn hyn yn gweithredu systemau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y sawl sy'n cynnal y briodas yn hytrach na'i lleoliad. Mae'r un peth yn wir ym myd y gyfraith gyffredin, lle mae Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau hefyd yn rheoleiddio'r dathlwr yn hytrach na'r lleoliad.

### Dyletswyddau a chyfrifoldebau gweinyddion

Bydd gan y gweinydd a fydd yn bresennol mewn priodas dair dyletswydd gyfreithiol i'w cyflawni.

1. Sicrhau bod y partïon yn mynegi cydsyniad i briodi ei gilydd yn rhydd. Bydd gan weinydd ddyletswydd i sicrhau bod y ddau aelod o'r cwpl yn mynegi eu cydsyniad i briodi wyneb yn wyneb ym mhresenoldeb ei gilydd, y tystion a'r gweinydd. Mae'r gofyniad i gyplau fynegi eu cydsyniad yn y seremoni, cyn iddynt lofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas, yn gymwys i bob priodas. Yn ychwanegol at hyn bydd angen i weinydd sifil sicrhau bod y cwpl yn mynegi eu cydsyniad gan ddefnyddio geiriau cytundeb gofynnol neu eiriau ag effaith debyg (fel y byddwn yn egluro isod).
2. Sicrhau bod gofynion eraill y seremoni yn cael eu bodloni. Fel rhan o hyn, bydd gan weinydd ddyletswydd i sicrhau bod dau dyst yn bresennol yn y briodas, a bod seremoni sifil yn cael ei gweld fel seremoni sifil (rydym yn egluro'r gofyniad hwn isod).
3. Sicrhau bod yr atodlen neu'r ddogfen briodas yn cael ei llofnodi. Yn unol â'r ddyletswydd hon mae'n ofynnol i'r gweinydd sicrhau bod gan y cwpl atodlen neu ddogfen briodas, sydd yn ei thro'n cadarnhau eu bod wedi cwblhau'r rhagarweiniadau gofynnol. Bydd angen i'r gweinydd hefyd sicrhau mai'r cwpl sy'n priodi yw'r cwpl a enwir yn yr atodlen neu'r ddogfen briodas, ac nad yw'r dyddiad arni wedi bod.

Yn ogystal, bydd gan bob gweinydd gyfrifoldeb i gynnal urddas ac arwyddocâd priodas yn ei rôl fel gweinydd ac wrth weinyddu mewn priodasau. Bydd angen i weinyddion ystyried y cyfrifoldeb hwn wrth gytuno ar ffurf y seremoni, a bydd y cyfrifoldeb ganddynt am y rhannau o'r seremoni lle maent yn bresennol. Bydd gweinydd yn gallu oedi neu stopio seremoni er mwyn cadw urddas ac arwyddocâd yr achlysur. Ond nid yw'n gyfrifol am agweddau o'r seremoni nad yw'n bresennol ynddynt, nac am ddathliadau a allai ragflaenu neu ddilyn y briodas ei hun, oni bai eu bod yn amharu ar y seremoni. Bydd y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn rhoi arweiniad i weinyddion ynglŷn â chyflawni eu cyfrifoldebau.

Yn unol â dull gweithredu cyffredinol y gyfraith o amddiffyn priodasau lle bo modd, ni fydd methiant gweinydd i gyflawni ei ddyletswyddau neu gyfrifoldebau cyfreithiol yn effeithio ar ddilysrwydd y briodas (oni bai fod y cwpl mewn gwirionedd heb roi rhybudd neu fynegi cydsyniad i briodi). Gall, fodd bynnag, olygu bod y gweinydd yn colli ei awdurdod i weithredu fel gweithredwr, ac mewn achosion

eithriadol, gall olygu bod y gweinydd wedi cyflawni trosedd.

### Categorïau o weinyddion

O dan ein hargymhellion bydd hyd at bum categori o weinyddion.

Bydd dau fath o weinydd yn cynnal priodasau cred:

1. Clerigwyr Anglicanaidd. Mae'r categori hwn yn cynnwys Clerigwyr a awdurdodwyd i ymarfer offeiriadaeth ordeiniedig yn Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru. Byddant yn cael eu cydnabod fel gweinyddion yn awtomatig er mwyn cynnal priodasau Anglicanaidd.
2. Gweinyddion enwebedig. Mae'r rhain yn weinyddion a fydd yn cael eu henwebu gan sefydliadau crefyddol (ar wahân i'r eglwys Anglicanaidd) ac, os cânt eu galluogi gan y Llywodraeth, sefydliadau cred anghrefyddol. Caiff enwebiadau eu gwneud gan awdurdod llywodraethu'r sefydliad, y bydd yn ofynnol iddo sicrhau bod y rhai a enwebir yn bersonau "cymwys a phriodol" i fod yn weinyddion, drwy fod o gymeriad da; heb gael eu dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd a fyddai ym marn y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn atal person rhag bod yn "gymwys a phriodol" i fod yn weinydd; yn 18 oed o leiaf; wedi derbyn hyfforddiant ar agweddau cyfreithiol bod yn weinydd; ac yn deall y gofynion cyfreithiol ar gyfer bod yn weinydd a chyflawni'r rôl.

Bydd tri math o weinydd yn cynnal priodasau sifil:

3. Swyddogion cofrestru sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol. O dan ein cynllun, dim ond un swyddog cofrestru fydd angen bod yn bresennol mewn priodas, a bydd hynny'n rhoi mwy o effeithlonrwydd a hyblygrwydd. Bydd swyddogion cofrestru hefyd yn cael eu cyfyngu i weinyddu mewn priodasau sifil. Ni fyddant mwyach yn gallu mynychu priodas grefyddol yn lle gweinydd crefyddol (ond byddant, â chaniatâd y sefydliad crefyddol perthnasol, yn gallu gweinyddu mewn priodas sifil mewn man addoli a allai ddigwydd yr un pryd â seremoni grefyddol ar wahân).
4. Os cânt eu galluogi gan y Llywodraeth i weinyddu mewn priodasau, byddai gweinyddion annibynnol yn cynnwys categori arall o weinyddion a fyddai'n gallu cynnal priodasau sifil. Byddai gweinyddion annibynnol yn annibynnol ar unrhyw sefydliad crefyddol neu gred anghrefyddol. Byddent yn ymgeisio'n unigol i gael eu cofrestru fel gweinyddion gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol. Er mwyn cael eu cofrestru, byddai'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn bersonau "cymwys a phriodol" drwy fod o gymeriad da; heb gael eu dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd a fyddai ym marn y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn atal person rhag bod yn "gymwys a phriodol" i fod yn weinydd; yn 18 oed o leiaf; wedi derbyn hyfforddiant ar agweddau cyfreithiol bod yn weinydd; ac yn deall y gofynion cyfreithiol ar gyfer bod yn weinydd a chyflawni'r rôl.
5. Bydd gweinyddion morol, sy'n gategori arbennig o weinyddion, yn gallu cynnal priodasau sifil mewn dyfroedd rhyngwladol ar fwrdd llongau mordeithio sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig â phorthladd o ddewis yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn cael ei awdurdodi fel gweinydd morol, bydd angen i unigolyn fod yn swyddog bwrdd, categori sy'n cynnwys y capten, is-gapten, a swyddogion eraill sy'n gyfrifol am wyliadwriaeth fordwyo ar fwrdd llong.

Gydag un eithriad, ni fydd unigolyn yn gallu bod yn weinydd mewn mwy nag un o'r categorïau uchod yr un pryd. Mae angen y gwaharddiad hwn ar awdurdodiad deuol gan fod y cyfrifoldeb am hyfforddi, monitro ac awdurdodi'r gwahanol gategorïau o weinyddion yn wahanol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r categori o weinyddion sy'n gweinyddu yn y briodas yn pennu'r math o briodas a gynhelir: p'un ai priodas sifil neu briodas cred. Gan fod rhai rheolau gwahanol yn gymwys i briodasau sifil o gymharu â

phriodasau cred, mae angen cael eglurder ynglŷn â statws y gweinydd.

Yr un eithriad i'r gwaharddiad ar awdurdodiad deuol yw y bydd yn bosibl i weinydd morol hefyd fod yn weinydd annibynnol. Nid yw'r problemau a nodwyd ag awdurdodiad deuol yn codi gan y bydd y gweinyddion hyn ill dau'n cynnal priodasau sifil, ac ag ychydig o eithriadau, byddant yn ddarostyngedig i'r un rheolau o ran hyfforddiant, monitro ac awdurdodiad.

## Y meini prawf ar gyfer sefydliadau crefyddol a sefydliadau cred anghrefyddol

Er mwyn enwebu gweinyddion, bydd yn rhaid i sefydliad ddangos ei fod yn sefydliad crefyddol neu sefydliad cred anghrefyddol sydd wedi'i sefydlu am gyfnod sylfaenol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ei fod wedi cael aelodau o o leiaf 20 aelwyd sy'n cyfarfod yn rheolaidd wyneb yn wyneb i addoli neu i hybu neu ymarfer ei gredoau. Bydd yn rhaid iddo hefyd ddangos bod ganddo bolisi yn ymwneud ag enwebu a monitro gweinyddion ac y byddai cael priodas yn cael ei gweinyddu gan weinydd wedi'i enwebu gan y sefydliad hwnnw yn amlygiad o grefydd neu gredoau'r unigolyn.

I fod yn sefydliad crefyddol, bydd angen i sefydliad fodloni'r disgrifiad yn y gyfraith bresennol, a roddir yn nyfarniad y Goruchaf Lys yn *R (Hodkin) v Registrar General of Births, Deaths and Marriages*. Yn yr achos hwnnw disgrifiodd yr Arglwydd Toulson grefydd fel::

> System gred ysbrydol neu an-seciwlar, a ddelir gan grŵp o ymlynwyr, sy'n honni ei fod yn egluro lle dynolryw yn y bydysawd a'i berthynas â'r anfeidrol, ac i ddysgu i'w ymlynwyr sut y maent i fyw eu bywydau yn unol â'r ddealltwriaeth ysbrydol sy'n gysylltiedig â'r system gred…. Gallai system gred o'r fath gynnwys cred yn y goruchaf, ond nid o reidrwydd, ond mae'n cynnwys cred bod mwy i'w ddeall am natur dynolryw a'i berthynas â'r bydysawd nag y gellir ei gael o'r synhwyrau neu o wyddoniaeth.

Caiff sefydliadau cred anghrefyddol eu cyfyngu i'r rhai hynny sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn hybu system o gredoau anghrefyddol sydd ag effeithiolrwydd, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd sy'n dod â hwy o fewn ystyr erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

## Atal masnachadwyedd a gwrthdrawiadau buddiannau

Mae'n gwbl gyfreithlon i weinyddion enwebedig godi tâl am weinyddu mewn priodasau, ac i'r tâl hwnnw adlewyrchu unrhyw amser paratoi a'r costau sy'n gysylltiedig â bod yn weinydd. Ond mae'n bwysig gwylio rhag masnacheiddio rôl gweinydd. O dan ein hargymhellion, caiff gweinyddion enwebedig felly eu hatal rhag rhoi buddiannau masnachol o flaen mynegi eu credoau. Byddai'r rheol hon yn atal gweinydd enwebedig rhag hysbysebu ei fod ar gael i weinyddu heb egluro ei gysylltiad â'r sefydliad sydd wedi'i enwebu.

Ni fyddai gweinyddion annibynnol, os cânt eu galluogi gan y Llywodraeth i gynnal priodasau sy'n rhwymo'n gyfreithlon, yn gweithredu yn unol â chredoau arbennig Gallent weithredu er mwyn gwneud elw yn unig ac ar sail cymhellion masnachol. Er hyn, byddent yn cael eu hatal rhag gweithredu â gwrthdrawiad buddiannau, er enghraifft, gofyn i'r cwpl brynu nwyddau neu wasanaethau megis blodau a gwasanaeth arlwyo ganddynt hwy neu eu cwmni er mwyn gweinyddu yn eu priodas, neu dderbyn tâl i argymell darparwr nwyddau a gwasanaethau arall.

Bydd gweinyddion morol hefyd yn cael eu gwahardd rhag gweithredu â gwrthdrawiad buddiannau.

## Hyfforddi, monitro a thynnu awdurdodiad yn ôl

Ni fydd y gallu i weinyddu mewn priodasau yn ddarostyngedig i derfyn amser penodol. Bydd awdurdodiad gweinyddion yn parhau oni bai neu nes tynnir eu hawdurdod yn ôl.

Bydd clerigwyr Anglicanaidd yn weinyddion cyhyd ag y bydd eu hawdurdodiad i ymarfer offeiriadaeth ordeiniedig yn parhau. Bydd darparu eu hyfforddiant, monitro a, lle bo angen, tynnu eu hawdurdod yn ôl, yn faterion i Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru.

Caiff hyfforddiant gweinyddion enwebedig, os cânt eu cymeradwyo gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, ei ddarparu gan y sefydliad sy'n enwebu neu ei ddarparu'n uniongyrchol gan Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol. Bydd y prif gyfrifoldeb am fonitro gweinyddion enwebedig a gofyn am dynnu eu hawdurdod yn ôl os na fyddant yn cydymffurfio â'r safon person "cymwys a phriodol", neu eu dyletswyddau neu gyfrifoldebau, ar ysgwyddau'r sefydliad a'u henwebodd. Fodd bynnag, os na fydd y corff a'u henwebodd yn gweithredu, bydd gan Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol bŵer i dynnu awdurdod gweinyddion enwebedig nad ydynt yn cydymffurfio â'r safon person "cymwys a phriodol" neu eu dyletswyddau neu gyfrifoldebau yn ôl.

Bydd awdurdodau lleol yn parhau'n gyfrifol am hyfforddi a monitro swyddogion cofrestru, y mae eu gallu i weinyddu yn ddibynnol o reidrwydd ar eu cyflogaeth barhaus yn eu rolau.

Bydd yn ofynnol i weinyddion annibynnol ymgymryd â hyfforddiant a ddarperir gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, neu ddarparwr a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol. Bydd Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol yn gyfrifol am fonitro gweinyddion annibynnol a thynnu awdurdod y rhai hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r safon "cymwys a phriodol" neu â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn ôl. Tynnir awdurdod gweinyddion annibynnol yn ôl yn awtomatig os na fyddant yn cydymffurfio â gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant parhaus a ragnodir gan Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol.



Bydd gweinyddion morol yn ddarostyngedig i'r un prosesau ar gyfer awdurdodi, hyfforddi a monitro ag yr rydym yn argymell y dylent fod yn gymwys i weinyddion annibynnol. Unwaith eto, mae eu gallu i weinyddu yn dibynnu ar eu cyflogaeth barhaus fel swyddog bwrdd.

## Gofynion yn ymwneud â'r seremoni

O dan ein cynllun, er mwyn priodi, bydd angen i gwpl gael seremoni briodas. Bydd angen i'r seremoni honno gynnwys rhywbeth mwy na'r cwpl yn llofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas; yn benodol, bydd angen i'r cwpl fynegi eu cydsyniad i briodi yn ogystal â llofnodi'r ddogfen. O ganlyniad bydd y broses o briodi yn parhau'n wahanol i ymrwymo i bartneriaeth sifil, y gellir ei ffurfio dim ond drwy lofnodi dogfen.

Mae ein hargymhellion, fodd bynnag, yn galluogi cyplau i gael seremoni briodas sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw, heb orfodi rheoliadau diangen dros gynnwys y seremoni. Drwy ganolbwyntio ar y cam rhagarweiniadau fel gwarchod buddiannau'r wladwriaeth mewn canfod ac atal priodasau ffug a phriodasau dan orfod, a sicrhau bod modd tynnu sylw at rwystrau i briodas, nid oes llawer o angen i'r gyfraith ddweud beth ddylai cynnwys seremoni fod.

### Mynegi cydsyniad

Gofyniad craidd seremoni briodas dan ein hargymhellion ni yw bod y cwpl yn mynegi cydsyniad i briodi, ym mhresenoldeb ei gilydd, y gweinydd a'r tystion, cyn llofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas.

**Mewn seremoni cred** – hynny yw, seremoni yn cael ei gweinyddu gan aelod o'r offeiriadaeth Anglicanaidd neu weinydd enwebedig – ni fydd gofyniad cyfreithiol yn ymwneud â sut y mae'r cwpl yn mynegi cydsyniad, cyn belled eu bod yn gwneud hynny'n glir (er y bydd sefydliadau cred yn gallu gofyn i'w gweinyddion hwy ddilyn eu gofynion eu hunain). Gellir mynegi cydsyniad drwy eiriau neu weithredoedd. Mae'r gallu i fynegi cydsyniad drwy weithredoedd yn arwyddocaol i grwpiau crefyddol y mae eu seremonïau priodas yn cynnwys mynegi cydsyniad drwy gyfres o ddefodau. Er enghraifft, mewn priodas Sikhaidd, byddai'r cwpl yn cerdded gyda'i gilydd yn glocwedd o amgylch y Sri Guru Granth Sahib Ji (yr ysgrythurau sanctaidd) yn gyfystyr â mynegi eu cydsyniad. Nid yw gweithredoedd defodol o'r fath yn llai clir a diamwys na geiriau lle mae'r cwpl, y gweinydd a'r tystion yn deall eu harwyddocâd.

**Mewn seremoni sifil** – seremoni lle mae'r gweinydd yn swyddog cofrestru, gweinydd annibynnol (os caiff ei alluogi gan y Llywodraeth i gynnal priodasau) neu weinydd morol – bydd yn rhaid i'r cwpl fynegi cydsyniad gan ddefnyddio geiriau cytundeb gofynnol, neu eiriau sy'n cael yr un effaith. Mae'r gofyniad hwn yn helpu i wahaniaethu rhwng seremonïau sifil a seremonïau sy'n seiliedig ar gred. Nid ydym yn gwneud argymhellion ynglŷn â ffurf geiriau'r cytundeb, ond gallent gynnwys, er enghraifft, geiriau megis, "Yr wyf yn dy dderbyn di [enw] fel fy [ngŵr, gwraig neu briod]".

Dan ein cynllun, bydd mynegi cydsyniad yn chwarae rhan ganolog yn nilysrwydd priodas. Er y bydd yn ofynnol i'r seremoni gynnwys mynegiad o gydsyniad ar wahân i lofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas – ac y bydd y gweinydd yn gyfrifol am sicrhau bod cydsyniad wedi'i fynegi cyn iddo gael ei lofnodi – bydd llofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas ar ei phen ei hun yn ddigon i fodloni'r gofyniad am gydsyniad yn nhermau dilysrwydd y briodas. Mae'r dull hwn yn rhoi sicrwydd; cyn belled bod yr atodlen neu'r ddogfen briodas wedi'i llofnodi'n briodol, ni ellir herio dilysrwydd y briodas ar sail a fynegwyd cydsyniad yn ystod y seremoni.

## Gofynion eraill

Ar wahân i fynegi cydsyniad, ni fydd gofynion penodol yn ymwneud â ffurf y seremoni. Bydd angen i'r cwpl a'u gweinydd gytuno ar ffurf y seremoni. Nid yw gallu cwpl i gytuno ar gynnwys eu seremoni gyda'u gweinydd yn anarferol. Mae'n digwydd dan y gyfraith bresennol lle mae priodas yn digwydd mewn man addoli cofrestredig, er bod priodasau o'r fath yn gorfod cynnwys geiriau rhagnodedig ar hyn o bryd. Wrth gytuno ar ffurf y seremoni, bydd angen i bob gweinydd ystyried eu cyfrifoldeb o ran urddas y briodas. Bydd angen i weinyddion enwebedig hefyd gydymffurfio â gofynion eu corff enwebu, a allai gynnwys defnyddio geiriau neu ddefodau arbennig. Drwy hyn, bydd grwpiau crefyddol yn dal i allu sicrhau bod eu priodasau'n cael eu cynnal yn unol â'u harferion a'u credoau hwy yn unig.

## Cynnwys crefyddol a chred anghrefyddol mewn priodasau sifil

Efallai y byddai llawer o gyplau sy'n cael seremoni sifil yn hoffi cynnwys elfennau cred benodol fel rhan o'u seremoni. Er enghraifft, efallai y byddai rhywun a fagwyd mewn ffydd grefyddol ond nad yw'n ymarfer y ffydd honno fel oedolyn yn dal i hoffi cynnwys cyfeiriadau crefyddol er mwyn talu teyrnged i'w fagwraeth neu i gredoau ei rieni yn ei briodas. Mae'n bosibl hefyd y byddai cyplau'n hoffi ymgorffori elfennau crefyddol yn eu priodas am resymau diwylliannol yn hytrach na chrefyddol.

O dan ein cynllun bydd yn bosibl i seremoni sifil gael cynnwys crefyddol, a chynnwys sy'n adlewyrchu credoau anghrefyddol, gan gynnwys cerddoriaeth, darlleniadau, gweddïau, bendithion a defodau. Er hyn, ni fydd modd i seremoni sifil fod ar ffurf gwasanaeth crefyddol neu wasanaeth cred anghrefyddol. Yn ogystal, bydd angen i briodas sifil gael ei gweld fel un sifil. Rydym yn gosod dau ofyniad ar briodasau sifil er mwyn sicrhau bod modd eu gweld yn glir fel priodasau sifil. Yn gyntaf, rydym yn argymell y dylai pob priodas sifil gael ei nodi felly, naill ai gan y gweinydd neu (lle bo'n berthnasol) gan berson arall sy'n arwain y seremoni. Neu, dylai fod yn ofynnol i'r gweinydd gyfeirio ato'i hun fel gweinydd sifil. Yn ail, bydd yn ofynnol i gyplau sy'n priodi mewn seremoni sifil fynegi eu cydsyniad gan ddefnyddio geiriau gofynnol, neu eiriau â'r un effaith, ac ni fyddant yn gallu defnyddio rhan o ddefodau priodas unrhyw grefydd arbennig wrth wneud hynny. Yn ychwanegol at hyn, ni fyddant yn gallu ailadrodd yn eu seremoni eiriau na ffurf unrhyw ddefod, addewid, datganiad neu fynegiad o gydsyniad sy'n ofynnol i unrhyw gwpl sy'n priodi mewn seremoni briodas grefyddol neu seremoni briodas cred anghrefyddol.

## Drysau agored

O dan ein cynllun, nid yw'n ofynnol cynnal priodas â "drysau agored". Fel yr eglurwyd uchod, nid yw'r gofyniad yn gymwys i bob priodas dan y gyfraith bresennol. Mae ei ddiddymu o'r mannau lle mae'n gymwys ar hyn o bryd felly'n rhoi pob priodas yn yr un sefyllfa â phriodasau Anglicanaidd ac Iddewig a phriodasau'r Crynwyr.

Mae'r ffaith fod cwpl yn bwriadu priodi yn fater cyhoeddus. Mae gan y wladwriaeth fudd mewn gwybod y bydd y briodas yn digwydd, yn fwyaf arbennig er mwyn darparu amddiffyniad rhag priodasau dan orfod a phriodasau ffug. Mae gan y cyhoedd fudd mewn gwybod am briodasau er mwyn i aelodau o'r cyhoedd allu codi unrhyw rwystrau sy'n bodoli i'r briodas. O dan ein cynllun, mae ffocws y buddiannau hyn yn y cam rhagarweiniadau, lle mae'r bwriad i briodi yn dod yn hysbys i'r awdurdodau sifil neu Anglicanaidd ac yna'n cael cyhoeddusrwydd – ar-lein yn achos rhagarweiniadau sifil. Cynrychiolir y wladwriaeth ym mhob priodas hefyd gan y gweinydd a'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

O ganlyniad nid oes angen i'r cyhoedd allu mynd i briodasau, drwy eu cynnal â "drysau agored", ac nid oes tystiolaeth bod y gallu i wneud hynny yn effeithiol fel ffordd o ganfod priodas ffug neu briodas dan orfod neu fynegi rhwystrau. Yn ogystal, mae risgiau ynghlwm wrth ofyniad o ddrysau agored, gan gynnwys risg o drais yn erbyn aelodau o leiafrifoedd crefyddol a dioddefwyr cam-drin domestig a seiliedig ar "anrhydedd". Mae risg hefyd o aflonyddu diangen a digroeso ar ddiwrnod pwysig iawn ym mywyd y cwpl.



## Lleoliad y briodas

Canlyniad y newid i gynllun seiliedig ar weinydd yw na fydd lleoliad priodas yn chwarae rhan mwyach yn y gyfundrefn reoleiddio sy'n rheoli priodasau. Mae'r newid hwnnw mewn pwyslais yn paratoi'r ffordd i briodasau allu digwydd mewn ystod lawer ehangach o leoliadau.

O dan ein hargymhellion, bydd modd cynnal priodasau mewn unrhyw fath o leoliad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd gan gyplau hawl i briodi yn unrhyw le o'u dewis. Yn gyntaf, bydd angen cytuno ar y lleoliad gyda'r gweinydd, a fydd yn gyfrifol am ystyried diogelwch y rhai a fydd yn bresennol ac urddas y lleoliad. Yn ail, bydd sefydliadau cred yn gallu gosod eu rheolau eu hunain ynglŷn â ble y bydd priodasau a gynhelir yn unol â'u credoau hwy yn digwydd. O ganlyniad, bydd crefyddau sy'n dymuno sicrhau mai dim ond yn eu man addoli y cynhelir eu priodasau yn gallu gwneud hynny drwy eu gallu i dynnu awdurdod y gweinyddwyr a enwebwyd yn ôl. Yn achos y crefyddau hynny, ni fydd ein hargymhellion mewn cysylltiad â lleoliad yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'w harferion presennol.

Er hyn, bydd ein hargymhellion yn datrys problemau sy'n cael eu hachosi gan y gyfraith bresennol, sy'n rhoi rhwystrau diangen yn ffordd cyplau sy'n priodi'n gyfreithlon. Byddant, er enghraifft, yn golygu y bydd cyplau nad yw eu crefydd yn gweld eu man addoli fel y lleoliad naturiol ar gyfer priodas, ac sy'n fodlon i'w gweinyddion gynnal priodasau mewn lleoliadau eraill, yn gallu cael priodas wedi'i chydnabod yn gyfreithlon yn rhywle ar wahân i'w man addoli. Bydd y gallu i wneud hynny yn lleihau'r tebygolrwydd o gyplau'n cael priodasau crefyddol yn unig.

Bydd y gallu i gynnal priodas mewn ystod eang o fathau o leoedd yn newydd yng Nghymru a Lloegr. Ond nid yw heb ei brofi. Mae'n digwydd yn gyffredin mewn gwledydd eraill, fel yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon, Jersey, Guernsey a Seland Newydd, Awstralia a Chanada.



Rydym yn ffyddiog o brofiad yn yr awdurdodaethau eraill hynny nad yw rhoi dewis ehangach o leoliadau i gyplau yn arwain at gynnal priodasau mewn lleoedd amhriodol. Mae cyfrifoldeb y gweinydd i ystyried diogelwch ac urddas yn fesur diogelu clir yn hynny o beth.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r newid tuag at roi mwy o opsiynau i gyplau o ran ble y gallant briodi yn digwydd yn barod yng Nghymru a Lloegr. Sicrhawyd yn ddiweddar bod modd cynnal priodas sifil ar dir safleoedd cymeradwy. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu diwygio'r gyfraith i wneud darpariaeth debyg fel bod modd cynnal priodasau ar dir mannau addoli cofrestredig ac eglwysi a chapeli Anglicanaidd. Mae'r diwygiadau diweddar hyn – yr oedd mwyafrif llethol y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Llywodraeth o'u plaid – yn dangos y galw ymhlith cyplau i allu cael priodasau yn yr awyr agored, ac i leoedd allu eu cynnig. Fel y dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder, Tom Pursglove AS, wrth gyhoeddi'r diwygiadau:

**Mae priodas yn un o'r diwrnodau pwysicaf ym mywyd rhywun ac mae'n iawn i gyplau gael mwy o ddewis o ran sut i ddathlu eu hachlysur arbennig.**

O dan ein cynllun, bydd gweinyddion yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cymeradwyo lleoliad pob priodas, gan gynnwys drwy ystyried diogelwch ac urddas y lleoliad. Byddant yn cael eu cynorthwyo i wneud hynny drwy ganllawiau a roddir gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

O ran diogelwch, mae cyfrifoldeb y gweinydd yn un cyd-destunol: rhaid iddo ystyried a yw'r lleoliad yn ddiogel i'r rhai sy'n dod i'r briodas arbennig honno, nid a yw'n ddiogel ar gyfer priodasau yn gyffredinol. Nid yw priodasau yn ddigwyddiadau peryglus yn eu hanfod, ac mewn llawer o achosion, gellir dibynnu ar y cyfreithiau iechyd a diogelwch sy'n bodoli. Nid yw *cyfrifoldeb* y gweinydd i ystyried diogelwch yn golygu ei fod yn *atebol* dan y gyfraith os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, er nad yw hynny'n debygol. Y cyfan y mae "cyfrifoldeb" y gweinydd yn ei olygu yw y bydd gan y gweinydd, wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo lleoliad, gyfrifoldeb statudol i ystyried diogelwch y rhai a fydd yn bresennol. Gallai peidio â gwneud hynny arwain at dynnu awdurdod y gweinydd yn ôl.

Fel arall, bydd gweinyddion yn ddarostyngedig i'r un system gyfreithiol sy'n bodoli'n barod â phawb arall. Yn fwyaf arbennig, mae'n bosibl (er yn annhebygol) y gallent fod yn atebol, dan gamwedd cyfrifoldeb meddiannwr neu esgeulustod, am anafiadau neu golledion yn deillio o fethu â chymryd gofal rhesymol wrth gymeradwyo'r lleoliad neu am ei weithredoedd ei hun. Ond ni fydd atebolrwydd cyfreithiol penodol mewn cysylltiad â diogelwch yn codi dim ond oherwydd y ffaith fod unigolyn yn weinydd.

O ran urddas, mae nifer o faterion y gallai fod angen i weinyddion eu hystyried, gan gynnwys sicrhau bod y cwpl yn gallu canolbwyntio ar fynegi eu cydsyniad i briodi ac arwyddocâd y weithred honno. Gallai ystyr personol lleoliad i gwpl hefyd fod yn berthnasol i asesu ei urddas a gallai atal cyplau rhag dewis lleoliad am resymau gwirion (er enghraifft, i greu argraff ar y cyfryngau cymdeithasol) neu i geisio "gwthio'r ffiniau". Ond bydd hefyd yn bwysig bod unrhyw gysyniad o urddas yn sensitif o safbwynt diwylliannol, gan gofio bod diwylliant yn chwarae rhan fawr yn yr hyn y mae unrhyw unigolyn penodol yn ei ystyried yn urddasol neu ystyrlon.

## Cofrestru

Ar ôl cynnal priodas, rhaid ei chofrestru. Mae cofrestru yn rhan bwysig o'r broses gyfreithiol o briodi. Mae'n darparu cofnod bod y seremoni wedi'i chynnal, ac mae'r dystysgrif briodas gyfreithiol y gellir ei chael ar ôl i'r briodas gael ei chofrestru yn rhoi tystiolaeth i'r cwpl eu bod wedi priodi. O ran y wladwriaeth, mae cofrestru yn tanlinellu'r ffaith fod priodas yn statws cyhoeddus gan fod y cofnod o'r briodas yn gofnod cyhoeddus.

Cafodd y broses o gofrestru priodas ei diwygio gan y Llywodraeth yn ddiweddar a chyflwynwyd y system atodlen. Roedd y sylfaen ar gyfer y diwygiadau hyn wedi'i gosod ar yr adeg y cyhoeddasom ein Papur Ymgynghori. Daeth y newidiadau i rym yn dilyn hynny ym mis Mai 2021. Nid yw ein cynllun yn galw am newidiadau sylweddol i'r gyfundrefn newydd hon a gyflwynwyd. Yn hytrach, y cyfan y mae ein hargymhellion yn ei wneud yw adeiladu ar y newidiadau hyn a gyflwynwyd yn ddiweddar er mwyn sicrhau y byddant yn gweithredu gydag agweddau eraill ar ein cynllun. Felly, er enghraifft, rydym yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â sut y caiff y gweinydd ei gofnodi ar yr atodlen neu'r ddogfen briodas. Yn ychwanegol at hyn, os cynhelir y briodas yng Nghymru, rydym yn argymell y dylai'r cwpl allu cael eu hatodlenni a'u dogfennau priodas wedi'u cwblhau yn y Gymraeg yn unig.

O dan ein cynllun, chan ystyried y gyfraith bresennol, bydd atodlen neu ddogfen briodas yn cofnodi'r canlynol.

- Natur y rhagarweiniadau (sifil neu ar ffurf rhagarweiniadau Anglicanaidd) a ddefnyddiwyd; enw a chyfenw, dyddiad geni, statws priodasol a galwedigaeth y ddau aelod o'r cwpl; a manylion y gweinydd arfaethedig. Darperir yr wybodaeth hon gan y cwpl fel rhan o'r rhagarweiniadau.



- Yn y seremoni, cyn llofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas, ychwanegir dyddiad a lleoliad y briodas, ynghyd ag enw a chorff awdurdodi neu enwebu'r gweinydd, ac enwau'r tystion.

Yn ogystal, yn y seremoni a chyn llofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas, gall y cwpl ddewis cofnodi arni (er nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny) enwau a galwedigaethau eu rhieni. Yn ychwanegol at hyn, o ran yr atodlen, gall y cwpl ddewis cofnodi enw unrhyw berson sy'n cynnal neu'n gweinyddu'r briodas a hefyd (lle bo'n berthnasol) y sefydliad crefyddol neu'r sefydliad cred anghrefyddol y mae'r person hwnnw'n gysylltiedig ag ef.

Yn ystod y seremoni, mae'r gweinydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr atodlen yn cael ei llofnodi gan y cwpl, eu tystion a'r gweinydd ym mhresenoldeb ei gilydd, ar ôl i'r cwpl fynegi cydsyniad i briodi. Yna bydd y gweinydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr atodlen yn cael ei dychwelyd i'r swyddfa gofrestru yn yr ardal lle cynhaliwyd y briodas cyn pen 21 diwrnod fel bod modd cofrestru'r briodas.



## Effaith peidio â chydymffurfio â ffurfioldebau cyfreithiol ar ddilysrwydd priodas

Os cynhelir priodas heb gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, gall canlyniadau amrywiol ddilyn. Mewn rhai achosion, bydd y briodas yn ddi-rym, ac os hynny bydd canlyniadau cyfreithiol penodol yn dilyn, neu'r canlyniad fydd seremoni anghymwys, a fydd yn arwain at drin y cwpl fel cwpl sy'n cyd-fyw. Mewn achosion eraill bydd y briodas yn ddilys, er gwaetha'r methiant i gydymffurfio â gofyniad arbennig, gan adlewyrchu polisi hirdymor y gyfraith na ddylid rhoi priodas o'r neilltu ar chwarae bach.

Mae ein hargymhellion yn symleiddio'r gofynion ar gyfer priodas ddilys ac yn sicrhau, lle nad yw priodas yn ddilys, ei bod

yn fwy tebygol y bydd yn ddi-rym nag y bydd y seremoni yn anghymwys.

O dan ein cynllun, nid oes ond pedwar amgylchiad lle bydd peidio â chydymffurfio â ffurfioldebau cyfreithiol yn gwneud priodas yn ddi-rym:


1. lle mae un o'r cwpl neu'r ddau ohonynt heb gwblhau cam wyneb yn wyneb y rhagarweiniadau priodas (ac eithrio lle mae'r briodas drwy drwydded arbennig);
2. lle cynhelir y briodas ar ôl i'r awdurdod i briodi ddod i ben;
3. lle mae'r ddau aelod o'r cwpl yn gwybod nad yw'r briodas yn cael ei gweinyddu gan weinydd awdurdodedig; a
4. Yn achos priodas grefyddol cwpl o'r un rhyw, lle mae'r ddau aelod o'r cwpl yn gwybod nad yw'r awdurdod llywodraethu perthnasol wedi optio i mewn i ddarparu priodasau o'r un rhyw.

Yn bwysig iawn, mae pob un o'r pedwar ffactor hyn o fewn rheolaeth neu wybodaeth y partïon.

O dan ein cynllun, nid oes ond dau amgylchiad lle bydd peidio â chydymffurfio â ffurfioldebau cyfreithiol yn arwain at seremoni anghymwys:

1. lle mae un o'r cwpl neu'r ddau ohonynt heb gwblhau cam wyneb yn wyneb y rhagarweiniadau priodas a lle mae naill ai'r ddau barti'n gwybod nad yw'r seremoni'n cael ei gweinyddu gan weinydd awdurdodedig, neu yn achos priodas grefyddol cwpl o'r un rhyw, nad yw'r awdurdod llywodraethu perthnasol wedi optio i mewn; neu
2. lle nad yw un aelod o'r cwpl yn mynegi cydsyniad â'r briodas, gan nad yw'n gwneud hynny fel rhan o'r seremoni ac nad yw'n llofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas.

## Y Cynllun rydym yn ei Argymell: Dilysrwydd



## Priodasau crefyddol yn unig

Mae priodasau crefyddol yn unig yn cydymffurfio â chredoau ac arferion crefydd ond yn cael eu cynnal y tu allan i'r fframwaith cyfreithiol, felly cânt eu dosbarthu fel seremonïau anghymwys.

Gall seremonïau anghymwys godi'n amlach mewn ambell ffydd, gan gynnwys grwpiau Mwslimaidd, Hindŵaidd a Sikhaidd, a ddatblygodd eu traddodiadau a'u ffyrdd cyfoethog eu hunain o gynnal priodasau ar wahân i ddatblygiad y rheolau cyfreithiol sy'n rheoli priodasau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod seremonïau anghymwys yn broblem gynyddol, yn enwedig mewn rhai cymunedau Mwslimaidd.

Mae categoreiddio seremoni fel un anghymwys yn hytrach na chreu priodas ddi-rym yn arwain at ganlyniadau arwyddocaol. Os yw priodas yn ddi-rym, mae gan lys sy'n rhoi archddyfarniad dirymedd yr un pwerau i ailddyrannu asedau rhwng y cwpl ag mewn ysgariad, ond mewn cyd-destunau eraill, gan gynnwys marwolaeth, nid yw priodas ddi-rym yn rhoi'r un hawliau ag un ddilys. Os yw'r seremoni yn anghymwys, caiff y cwpl eu trin fel cwpl sy'n cyd-fyw; mewn achosion o'r fath nid oes gan lys bŵer i ailddyrannu asedau rhwng y cwpl os byddant yn gwahanu, ac nid oes gan rywun sy'n cyd-fyw yr un hawliau ar farwolaeth ei bartner ag sydd gan unigolyn ar farwolaeth ei briod.

Bydd ein hargymhellion yn ei gwneud hi'n haws i briodasau crefyddol gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

- Ni fydd angen cynnal priodas grefyddol mewn man addoli, gan alluogi cyplau i gael priodas sy'n rhwymo'n gyfreithiol mewn man sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw ac sy'n adlewyrchu arferion eu ffydd.
- Ni fydd geiriau rhagnodedig y bydd yn rhaid eu cynnwys mewn seremoni gred, gan alluogi cyplau i gael seremoni sy'n rhwymo'n gyfreithiol ac yn adlewyrchu'r traddodiadau yn eu ffydd.

Ond bydd cyplau o hyd sy'n cael priodas grefyddol yn unig. Bydd rhai'n gwneud hynny fel mater o ddewis, yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau cyfreithiol eu penderfyniad. Bydd eraill, fodd bynnag, nad ydynt yn ymwybodol bod eu priodas yn un nad yw'n cael ei chydnabod gan y gyfraith, neu'n ymwybodol o ganlyniadau cyfreithiol hynny, neu a fydd dan bwysau neu'n cael eu gorfodi i dderbyn priodas grefyddol yn unig. I'r rhai hynny nad yw priodas grefyddol yn unig yn ddewis rhydd a deallus iddynt, gall y canlyniadau ar ddiwedd y berthynas fod yn ddychrynllyd. Teimlir y canlyniadau hynny'n fwy gan fenywod a chan y plant o'r berthynas.

Mae ein hargymhellion felly'n ceisio lleihau'r amgylchiadau lle mae cyplau'n canfod eu hunain mewn priodas heb effaith gyfreithiol.

- Bydd priodas yn ddilys os bydd y cwpl yn cwblhau cam wyneb yn wyneb y rhagarweiniadau ac yn cydsynio i briodi ym mhresenoldeb gweinydd, neu berson y mae o leiaf un ohonynt yn credu ei fod yn weinydd.
- Bydd priodas yn ddi-rym (yn hytrach nag anghymwys) os bydd cwpl heb gwblhau cam wyneb yn wyneb y rhagarweiniadau ond yn dal i gydsynio i briodi ym mhresenoldeb gweinydd, neu berson y mae o leiaf un ohonynt yn credu ei fod yn weinydd.

Rydym hefyd yn argymell y dylai fod yn drosedd i weinydd, neu berson sy'n honni ei fod yn weinydd neu sy'n arwain y seremoni, gamarwain y naill neu'r llall o'r cwpl ynglŷn ag effaith gyfreithiol ei seremoni. Yn ogystal, bydd gweinydd yn euog o drosedd os na fydd yn datgelu na fydd seremoni y mae'n gweinyddu ynddi yn arwain at briodas ddilys.

Mae ein hargymhellion yn mynd cyn belled ag yr ydym yn credu y gall cyfraith priodasau fynd i roi cydnabyddiaeth gyfreithiol i briodas pan na ddilynwyd y ffurfioldebau cyfreithiol ar gyfer priodi. Byddant yn darparu gwell canlyniad i lawer o bobl nad yw eu priodas yn ddilys yn ôl y gyfraith. Ond ni fyddant yn helpu pawb. Er enghraifft, bydd menyw sydd dan bwysau neu sy'n cael ei gorfodi i ymrwymo i briodas grefyddol yn unig, boed drwy ddisgwyliadau diwylliannol neu grefyddol, neu drwy ymddygiad ei phartner, yn dal i gael seremoni anghymwys, lle mae'r naill neu'r llall o'r cwpl ddim yn rhoi rhybudd a bod y ddau ohonynt yn ymwybodol nad yw'r seremoni'n cael ei gweinyddu gan weinydd awdurdodedig.

Nid ydym yn meddwl y dylai pobl yn y sefyllfa honno gael eu gadael heb rwymedi. Fodd bynnag, credwn fod angen i'r rhwymedi ddod o'r tu allan i gyfraith priodasau. Mae llawer o bobl sydd mewn sefyllfa agored i niwed o safbwynt cyfreithiol gan nad yw eu perthynas yn cael ei chydnabod yn gyfreithiol. Bydd rhai o'r rheiny wedi cael seremoni priodas grefyddol sy'n anghymwys, bydd eraill wedi cael math arall o seremoni nad yw'n cael ei chydnabod yn gyfreithiol (megis seremoni Ddyneiddiol neu un a gynhelir gan ddathlwr annibynnol), tra bydd llawer yn cyd-fyw heb gymryd rhan mewn unrhyw seremoni. Fel yn achos priodasau crefyddol yn unig, bydd rhai o'r rhai sydd wedi cael math arall o seremoni neu sy'n cyd-fyw yn gwneud hynny o ddewis a byddant yn gwbl ymwybodol o'r canlyniadau cyfreithiol; bydd eraill yn gwneud hynny heb fod yn ymwybodol o'r canlyniadau cyfreithiol, neu byddant yn y sefyllfa hon oherwydd pwysau neu orfodaeth gan bartner sy'n gwrthod priodi, neu bartner sy'n addo priodas nad yw byth yn digwydd.

Rydym yn cydnabod na fyddai cwpl sydd wedi cael seremoni grefyddol yn ystyried eu hunain fel cwpl sy'n cyd-fyw, ac na fyddai eu cymuned grefyddol yn eu hystyried fel cwpl sy'n cyd-fyw. Er hynny, credwn fod llawer o bethau'n gyffredin rhyngddyn nhw a chwpl nad yw wedi cael unrhyw seremoni o gwbl, neu sydd wedi cael math arall o seremoni nad yw'n cael ei chydnabod gan y gyfraith. Lle nad yw cwpl wedi ymgysylltu â chyfraith priodasau, mae angen edrych y tu hwnt i unrhyw seremoni a gynhaliwyd ac ar eu perthynas fel ffocws iawn cyfreithiol. Byddai diwygio'r gyfraith i ddarparu rhyddhad ariannol i gyplau sy'n cyd-fyw ar ddiwedd eu perthynas yn helpu'r rhai hynny sydd wedi cael seremoni grefyddol anghymwys, y rhai sydd wedi cael seremoni anghrefyddol nad yw'n cael ei chydnabod gan y gyfraith, a'r rhai hynny sydd heb gael unrhyw seremoni o gwbl. Mae Comisiwn y Gyfraith eisoes wedi gwneud argymhellion ar gyfer diwygio a fyddai'n darparu rhyddhad ariannol i gyplau sy'n cyd-fyw (gan gynnwys y rhai hynny mewn priodasau crefyddol yn unig) pan fydd y berthynas yn dod i ben o ganlyniad i chwalu neu farwolaeth.

# Covid-19 a phwerau argyfwng

Fel popeth arall, cafodd pandemig Covid-19 effaith ddifrifol ar briodasau. Roedd llawer o gyplau'n methu â chael y briodas roeddent yn ei dymuno, gyda ffrindiau a theulu'n bresennol, mewn cyfnodau amrywiol yn ystod y pandemig. Yn ychwanegol at hyn, roedd y mesurau argyfwng a gyflwynwyd i atal lledaeniad Covid yn golygu bod cyfnodau sylweddol pan oedd y rhan fwyaf o gyplau yn methu â phriodi'n gyfreithlon o gwbl.

Gallai rhai o'r argymhellion rydym yn eu gwneud ar gyfer cyfraith priodasau ddiwygiedig leihau effaith unrhyw argyfwng cenedlaethol yn y dyfodol ar briodasau. Er enghraifft, bydd y gallu i ddechrau'r cyfnod hysbysu ar-lein yn golygu bod modd rhoi rhybudd o briodas hyd yn oed pan fydd swyddfeydd cofrestru ar gau (er y byddai angen i'r cwpl fynd i gyfweliad wyneb yn wyneb o hyd i gwblhau'r rhagarweiniadau). Gallai'r gallu i gynnal mwy o briodasau yn yr awyr agored mewn ystod ehangach o leoliadau fod o gymorth hefyd. Mewn argyfwng cenedlaethol yn y dyfodol, fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'r Llywodraeth yn dymuno gwneud mwy i helpu'r rhai hynny sydd eisiau priodi. O ganlyniad, rydym yn argymell y dylai deddfwriaeth priodasau gynnwys pŵer i wneud darpariaethau arbennig mewn argyfwng cenedlaethol sy'n atal cyplau rhag cydymffurfio â ffurfioldebau priodi. Gallai mesurau o'r fath gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod modd cynnal y cyfweliad wyneb yn wyneb sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r rhagarweiniadau priodas ar-lein, a galluogi'r gweinydd, y cwpl a'r tystion i fod yn y briodas o bell. Gallai camau syml helpu hefyd, er enghraifft ymestyn dilysrwydd yr atodlen priodas am fwy na 12 mis os bydd priodasau (fel a ddigwyddodd yn ystod y pandemig) yn cael eu gohirio gan argyfwng cenedlaethol y tu hwnt i gyfnod dilysrwydd atodlen.



# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddai'r cynllun sy'n cael ei argymell gennym yn gwneud y gyfraith yn syml, yn deg ac yn bendant. Byddai'n cysoni ac yn rhesymoli'r gyfraith, yn dileu'r gwahaniaethau yn y ffordd y mae grwpiau a chyplau'n cael eu trin. Byddai'n cydbwyso'n briodol y rheoleiddio sydd ei angen er mwyn gwarchod buddiannau'r wladwriaeth, darparu sicrwydd ynglŷn â phwy sy'n briod ac amddiffyn rhag priodasau dan orfod a phriodasau ffug, â rhyddid cyplau i ddathlu priodasau mewn ffordd sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw, gan amddiffyn eu rhyddid mynegiant a'u cred.

Cyfrifoldeb y Llywodraeth yn awr yw ystyried ac ymateb i argymhellion Comisiwn y Gyfraith. O dan y Protocol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (ar ran y Llywodraeth) a Chomisiwn y Gyfraith, bydd y Gweinidog cyfrifol yn ymateb i'r argymhellion cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag yw'r achos, ag ymateb interim cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad ac ymateb llawn cyn pen blwyddyn.

Os bydd y Llywodraeth, fel y gobeithiwn, yn derbyn ein hargymhellion, bydd angen drafftio bil i'w gweithredu. Yna gellir cyflwyno'r bil hwnnw i'r Senedd i ddod yn gyfraith.



Find out more at design102.co.uk
**Design that makes a difference**